2022/2023

Adroddiad Cynnydd Nodau Datblygu Cynaliadwy Prifysgol Bangor

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS

SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS

1 DIM TLODI

2 DIM NEWYN

3 IECHYD A LLESIANT DA

4 ADDYSG O ANSAWDD

5 CYDRADDOLDEB RHYWIOL

6 DŴR GLÂN A GLANWEITHDRA

7 YNNI FFORDDIADWY A GLÂN

8 GWAITH TEILWNG A THWF ECONOMAIDD

9 DIWYDIANT, ARLOESI A SEILWAITH

10 LLAI O ANGHYDRADDOLDEB

11 DINASOEDD A CHYMUNEDAU CYNALIADWY

12 DEFNYDDIO A CHYNHYRCHU'N GYFRIFOL

13 GWEITHREDU AR Y NEWID YN YR HINSAWDD

14 BYWYD O DAN Y DŴR

15 BYWYD AR Y TIR

16 HEDDWCH, CYFIAWNDER A SEFYDLIADAU CADARN

17 GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH I GYFLAWNI'R NODAU

Cyflwyniad

Y Nodau Datblygu Cynaliadwy

"Rhaid i ni ddefnyddio ein holl allu i gymryd camau gweithredu ar y cyd a fydd yn llunio atebion sy'n atgyfnerthu ei gilydd i'n hargyfyngau amgylcheddol a chyfyngderau datblygiadol"

Mr. Li Junhua, Is-ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig dros Faterion Economaidd a Chymdeithasol

"Mae'r holl Nodau Datblygu Cynaliadwy wedi'u cydblethu'n ddwfn ac yn rhyng-gysylltiedig. Mae'r hyn a gyflawnwn mewn perthynas â Nodau Datblygu Cynaliadwy unigol yn effeithio ar gynnydd yr holl Nodau Datblygu Cynaliadwy. Os byddwn yn methu â mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, bydd Nodau Datblygu Cynaliadwy eraill yn anghyraeddadwy"

Mr. Simon Stiell, Ysgrifennydd Gweithredol Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd

Mae cynaliadwyedd wrth wraidd Prifysgol Bangor ac mae'n ganolog i'n Strategaeth 2030 y Brifysgol:

"Prifysgol fyd-eang ei chysylltiadau, sy'n manteisio ar gyfleoedd i lwyddo trwy ymchwil ac addysgu trawsnewidiol ac arloesol sy'n seiliedig ar effaith gyda ffocws ar gynaliadwyedd: diogelu'r amgylchedd, adfywio iechyd cymdeithas, a hyrwyddo ffyniant economaidd, cymdeithasol, dwyieithog, a diwylliannol."

Fel cymuned prifysgol, rhaid i ni weithredu mewn modd sy'n sicrhau bod anghenion ein myfyrwyr, ein staff a'n cymuned leol yn cael eu diwallu, heb gyfaddawdu ar allu'r rheini yn y dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Amcanion Prifysgol Bangor yw addysgu ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf, cynnal ymchwil flaenllaw, bod yn gyflogwr gwych, a chymryd rhan weithredol yn y gymuned. Mae cynaliadwyedd ym Mhrifysgol Bangor yn bellgyrhaeddol, ac mae'n cynnwys popeth: o iechyd a lles ei staff, i ailgylchu yn ei neuaddau myfyrwyr; o gynnwys y cwricwlwm i'w gweithgareddau ymchwil.

Y Strategaeth Gynaliadwyedd 2030

Tabl Cynnwys

Nid mater o edrych yn ôl yn unig yw adroddiadau cynaliadwyedd

Mae'r Adroddiad hwn yn cyflwyno ein pedwerydd adroddiad Nodau Datblygu Cynaliadwy blynyddol cyhoeddedig i ddangos sampl fach o'r ffyrdd niferus yr ydym yn cyfrannu drwy ymchwil, ymgysylltu â'r cyhoedd, dysgu a myfyrwyr, ac elfennau gweithredol, at 17 Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae'r Adroddiad Nodau Datblygu Cynaliadwy hwn yn waith parhaus ar y gweill, ac yn ffordd i Brifysgol Bangor olrhain ei heffaith a'i gwelliannau dros amser.

03 NOD 1: DIM TLODI

05 NOD 2: DIM NEWYN

07 NOD 3: IECHYD A LLESIANT DA

09 NOD 4: ADDYSG O ANSAWDD

11 NOD 5: CYDRADDOLDEB RHYWIOL

13 NOD 6: DŴR GLÂN A GLANWEITHDRA

15 NOD 7: YNNI FFORDDIADWY A GLÂN

17 NOD 8: GWAITH TEILWNG A THWF ECONOMAIDD

19 NOD 9: DIWYDIANT, ARLOESI A SEILWAITH

21 NOD 10: LLAI O ANGHYDRADDOLDEB

23 NOD 11: DINASOEDD A CHYMUNEDAU CYNALIADWY

25 NOD 12: DEFNYDDIO A CHYNHYRCHU'N GYFRIFOL

27 NOD 13: GWEITHREDU AR Y NEWID YN YR HINSAWDD

29 NOD 14: BYWYD O DAN Y DŴR

31 NOD 15: BYWYD AR TIR

33 NOD 16: HEDDWCH, CYFIAWNDER A SEFYDLIADAU CADARN

35 NOD 17: GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH I GYFLAWNI'R NODAU



YMCHWIL

Aramlygiad Coronafeirws i wytnwch bwyd, lle a chymuned: safbwynt awdurdod lleol yng Nghymru

Mae’r papur Prifysgol Bangor hwn yn gwneud defnydd o safbwyntiau lluosog y rhai sy'n gweithio i frwydro yn erbyn diffyg diogeledd bwyd, anghydraddoldeb bwyd ac anhygyrchedd bwyd yng Ngwynedd. Mae’n archwilio mentrau mynediad at fwyd a’u hymatebion i’r pandemig, cydweithrediadau dosbarthu bwyd arloesol a rôl cynnal cymunedau gwledig bregus.

Daw’r astudiaeth i’r casgliad nad yw’r angen am greu lleoedd trawsnewidiol i adeiladu cymunedau cryfach, mwy gwydn erioed wedi bod yn fwy dybryd, gyda chefnogaeth gan gyllid y sector cyhoeddus i helpu i liniaru rhywfaint o’r caledi a’r pwysau gyda’r cynnydd mewn tlodi a chyni, a achoswyd gan y coronafeirws neu beidio.

Nod: Rhoi diwedd ar dlodi o bob ffurf ym mhobman

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Mudiadau cymdeithas sifil Roma, Sipsiwn a Theithwyr: Archwilio profiadau a heriau yn Ewrop heddiw

Yn Medi 2022, wnaeth Prifysgol Bangor trefnu a chynnal digwyddiad wnaeth dod â sefydliadau cymdeithas sifil Roma, Sipsiwn a Theithwyr o bob rhan o Ewrop ynghyd gydag academyddion, llunwyr polisïau, ac aelodau o'r gymuned i glywed a thrafod profiadau Roma, Sipsiwn a Theithwyr yn Ewrop.

Mae'r digwyddiad yn amlygu profiadau sefydliadau cymdeithas sifil Roma a bydd yn cynnwys arddangosfa sain/clywedol a ddyluniwyd i dynnu sylw at rai o'r lleisiau yr ydym wedi'u recordio yn ein hymchwil yn ogystal â dangos ffilm a chynnal dau ddiwrnod o drafodaethau.

Wnaeth y digwyddiad hwn hefyd cynnwys prif areithiau, trafodaethau mewn grwpiau a gweithdai, a myfyrio ar ddwy flynedd o ymchwil a ariannodd Ganolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil WISERD y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a archwiliodd Roma Tsiec a Groegaidd, a sefydliadau cymdeithas sifil Sipsiwn, Roma a Theithwyr y DU.

Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD)

Mae tri aelod o staff y Brifysgol yn rhan o WISERD, sefydliad ymchwil gwyddorau cymdeithasol rhyngddisgyblaethol cenedlaethol, wedi dynodi gan Lywodraeth Cymru’n fel canolfan ymchwil genedlaethol. Gan ddefnyddio dulliau arloesol, mae ymchwil nhw yn cwmpasu economeg, cymdeithaseg, daearyddiaeth a gwyddoniaeth wleidyddol.

DYSGU A MYFYRWYR

Yr Ymgyrch Costau Byw

Dyma ymgyrch i helpu myfyrwyr gydag amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r argyfwng costau byw gan gynnwys mentrau amrywiol rhwng Hydref 2022 a Mai 2023. Cafwyd cefnogaeth yn y meysydd canlynol: Cyngor ariannol a cheisiadau Cyllid Myfyrwyr, cynhyrchion mislif amlddefnydd am ddim, prydau bwyd rhatach, atgyweiriadau am ddim ar gyfer eitemau trydanol bach, tecstilau a beiciau yn ein Caffis Trwsio, cefnogaeth gydag Iechyd Meddwl a Llesiant, aelodaeth am ddim i glybiau a chymdeithasau Undeb y Myfyrwyr, Mynediad 24/7 at fannau dysgu cynnes.

Fel rhan o ymgyrch Costau Byw Undeb Bangor sefydlodd yr Undeb Lyfrgell Ddillad at Gyfweliadau i'r myfyrwyr. Mae hynny'n golygu y bydd myfyrwyr yn gallu benthyca dillad trwsiadus i'w gwisgo mewn cyfweliadau, beth bynnag eu sefyllfa ariannol.

Llyfrgell Benthyg Dillad Cyfweliad i Fyfyrwyr

Astudio

Mae'r modiwl israddedig Tlodi ac Anghydraddoldeb yn archwilio'r esboniadau dros dlodi yn y Deyrnas Unedig, a phrofiad pobl ohono. Mae'n ystyried sut caiff tlodi ei ddiffinio, pwy sydd yn y perygl mwyaf o fod yn dlawd, y canlyniadau posibl, ystyr bod yn dlawd yn y Deyrnas Unedig heddiw a gwahanol elfennau tlodi, gan gynnwys incwm, cyfoeth, iechyd, addysg a thai.

GWEITHREDIADAU

Arbedion ar Deithio

Gall myfyrwyr sy'n dymuno teithio o fewn neu'r tu allan i Fangor brynu Tocynnau Arriva Student Saver gydag arbedion o hyd at 30% ar docynnau bws. Mae'r staff hefyd yn gallu cael tocynnau gostyngol Arriva ac mae'r cynllun hefyd yn caniatáu teithio am ddim i hyd at ddau o blant ar benwythnosau a gwyliau banc.



Ysgoloriaethau, Efrydiaethau a Bwrsariaethau

Mae Prifysgol Bangor yn awyddus i gynnig cymorth ychwanegol i fyfyrwyr trwy amrywiol fwrsariaethau ac ysgoloriaethau sy'n werth dros £1M sydd ar gael i fyfyrwyr hen a newydd. Fel rhan o gynllun Ysgoloriaethau Mynediad Bangor, mae oddeutu 40 Ysgoloriaeth Ragoriaeth o hyd at £3,000 yr un ar gael i'r rheini sy'n rhagori yn arholiadau Ysgoloriaethau Mynediad blynyddol y Brifysgol.

Mae cynllun Ysgoloriaeth Chwaraeon Bangor yn bwriadu cydnabod a chefnogi rhagoriaeth a chyrhaeddiad mewn chwaraeon. Nid yw'r Ysgoloriaethau, sy'n werth £3,000 y flwyddyn, wedi'u cyfyngu i unrhyw gamp neilltuol nac i fyfyrwyr ar unrhyw gyrsiau penodol.

Cronfa Caledi

Mae'r Brifysgol yn darparu cronfa galedi i gefnogi myfyrwyr i dalu am gostau hanfodol na ellid cynllunio ar eu cyfer. Mae Cronfeydd Caledi yn un o'r ffyrdd rydym yn cefnogi ein myfyrwyr ynghyd â'n Bwrsariaethau, benthyciadau byr dymor a'n grantiau argyfwng.

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Cyllid i broject da byw arloesol a allai drawsnewid cynaliadwyedd ffermio anifeiliaid cnoi cil

Mae'r Ganolfan Biogyfansoddion yn rhan o dîm sydd wedi derbyn £2.8 miliwn i ariannu project a fydd yn ystyried effeithlonrwydd magu anifeiliaid cnoi cil, ffermio cynaliadwy, a monitro lefelau methan ar y fferm. Bydd y consortiwm yn gweithio'n agos gyda ffermwyr, rhanddeiliaid yn y diwydiant, a llunwyr polisi trwy gydol cyfnod y project er mwyn sicrhau aliniad ag anghenion a blaenoriaethau'r sector. Trwy feithrin cydweithrediad a chyfnewid gwybodaeth, nod y consortiwm yw cyflwyno buddion diriaethol i'r gymuned ffermio ac ar yr un pryd gyfrannu at nodau cynaliadwyedd cenedlaethol a byd-eang.

Canolfan Ymchwil Henfaes

Mae Canolfan Ymchwil Henfaes, sef fferm ymchwil Prifysgol Bangor, yn fferm astudio ar gyfer y Llwyfan Dwysáu Cynaliadwy (SIP). Mae SIP yn rhaglen ymchwil aml-bartner a ariennir gan Defra a Llywodraeth Cymru, sy'n golygu ei bod yn profi ac yn dangos i'r cyhoedd ystod o arferion rheoli fferm amgen a all, o bosibl, wella perfformiad economaidd, amgylcheddol neu gymdeithasol systemau ffermio.

Nod: Rhoi diwedd ar newyn, sicrhau diogelwch bwyd a gwell maeth a hyrwyddo amaethyddiaeth gynaliadwy

YMCHWIL

Mae ffilmiau tomwellt plastig bioddiraddadwy yn cynyddu cynnyrch ac yn hyrwyddo effeithlonrwydd defnyddio nitrogen mewn garddwriaeth organig

Defnyddir tomwellt ffilm plastig (PFM) yn helaeth oherwydd eu gallu i gynyddu cynnyrch ac atal chwyn rhag ymddangos. Fodd bynnag, nid yw eu heffeithiau ar ryngweithiadau planhigion-pridd-microbaidd yn cael eu deall cystal. Bu i ymchwil gan academyddion Bangor ymchwilio i sut roedd PFM confensiynol a bioddiraddadwy yn effeithio ar ddeinameg N pridd/cnydau ac asesu eu defnyddioldeb fel cyfrwng i reoli N mewn garddwriaeth organig mewn rhanbarth tymherus gwlyb gyda chnydau sy'n cael eu bwydo â glaw.

Wrth iddynt ddamcaniaethu, newidiodd y ddau PFM ficrohinsawdd y pridd, cynyddu twf cnydau, argaeledd N mwynau yn y pridd ac effeithlonrwydd NUE tail dofednod ychwanegol. Mae hyn yn dangos manteision PFM o safbwynt diogeledd bwyd.

Mesurau dwysáu ecolegol i wella cynhyrchedd a lleihau gwarged nitrogen mewn system rhyng-gnydio indrawn-gwenith / melon dŵr

Mae rhyng-gnydio yn arfer dwysáu ecolegol addawol diolch i'w gynnyrch cnydau gwell ac effeithlonrwydd defnyddio maetholion o'i gymharu â mono-gnydio. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar sicrhau cynnyrch ac effeithlonrwydd uwch, ac ychydig a wyddys am sut i fynd i'r afael â chyfyngiadau o'r fath. Bu i ymchwil a wnaed gyda Bangor archwilio effeithiau mesurau dwysáu ecolegol ar gynhyrchiant a gwarged nitrogen (N) mewn rhyng-gnydio indrawn-gwenith / melon dŵr.

DYSGU A MYFYRWYR

Astudio

Mae ein cwrs ôl-raddedig Amaethyddiaeth yn arbenigo mewn datblygu cynaliadwy a systemau ffermio peri-drefol. Ymchwil i systemau ac arferion amaethyddol yn amrywio o wyddor cynhyrchu planhigion ac anifeiliaid, i wneud penderfyniadau a pholisïau gwledig; gyda ffocws ar gnydau amgen, bwyd a maeth, iechyd ffermwyr, gwybodaeth leol a datblygu gwledig.

Mae'r cwrs cwrs ôl-raddedig Amaethgoedwigaeth a Diogelu'r Cyflenwad Bwyd yn cael eu cynnal ym Mangor a dysgu o bell i alluogi myfyrwyr o amgylch y byd i gael mynediad. Mae'r cwrs hwn wedi'i achredu gan y Sefydliad Coedwigwyr Siartredig ac yn darparu dealltwriaeth fanwl o amaethyddiaeth coedwigoedd fel rhan o system gynhyrchu bwyd cynaliadwy, gan gynnwys ei chydrannau cymdeithasol ac amgylcheddol. Bydd yn galluogi myfyrwyr i weithredu'r ymchwil ddiweddaraf i feddylfryd systemau cynhyrchu cynaliadwy ac yn hwyluso mynediad i yrfaoedd cysylltiedig ag amaethyddiaeth coedwigoedd.

Mae modiwl ôl-radd Amaethyddiaeth a'r Amgylchedd yn adolygu systemau ac arferion amaethyddol, yr egwyddorion gwyddonol sy'n sail iddynt, yr effaith ar yr amgylchedd, a thueddiadau posibl yn y dyfodol a achosir gan newid yn yr hinsawdd. Bydd myfyrwyr yn ystyried cwmpas deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol llywodraeth Undeb Ewrop a'r DU sydd â'r nod o leihau effeithiau negyddol, gan gynnwys rôl cynlluniau amaeth-amgylcheddol a thrafod eu heffaith ar lefel y fferm. Mae'r modiwl yn mynd i'r afael â defnydd tir gorau posibl ar gyfer darparu gwasanaethau lluosog i ecosystemau.

GWEITHREDIADAU

Ansicrwydd Bwyd

Mae Prifysgol Bangor yn deall y pryderon sydd gan y staff a'r myfyrwyr ynglŷn â chostau byw. Ers mis Tachwedd mae prydau twym arbennig ar gael yn ddyddiol yn nwy o ganolfannau arlwyo'r Brifysgol am £2 o ddydd Llun i ddydd Gwener trwy gydol y tymor academaidd a gwyliau'r haf i fyfyrwyr sy'n aros dros fisoedd yr haf.
Bydd y "Dydd Llun Llysieuol" yn parhau gyda chynnig o ddewisiadau fegan neu lysieuol ac o ddydd Mawrth i ddydd Gwener bydd dewis o gig a llysiau. Hefyd, ar ôl 3pm mae gostyngiad o 75% ar fwyd ffres wedi'i becynnu sydd wedi cyrraedd ei ddyddiad gwerthu olaf yn ein siopau arlwyo.

Data Gwastraff Bwyd

Yn 2022/23 wnaeth Prifysgol Bangor ddargyfeirio 100% o'i gwastraff o safle tirlenwi. Wnaeth 7.56% o'r holl wastraff ei anfon i safle Treulio Anaerobig lleol yng Ngwynedd o'r enw Biogen Gwyriad. Rydym yn anfon ein gwastraff bwyd i safle Treulio Anaerobig yn hytrach nag i safle sy'n compostio mewn cynhwysydd oherwydd bod y llywodraeth yn cydnabod fod Treulio Anaerobig yn un o'r dulliau gorau o ailgylchu gwastraff bwyd, gan ei fod yn cynhyrchu trydan a gwres yn ogystal â bio-wrtaith, mewn cylch caeedig.



Cyfanswm Gwastraff o bob Llif 2022/2023

YMCHWIL

Rhaglen monitro dŵr gwastraff wedi'i hymestyn i gynnwys ysbytai a monitro y tu hwnt i Covid-19

Mae rhaglen wedi ei arwain gan Lywodraeth Cymru, gyda Phrifysgol Bangor yn un o'r prif bartneriaid, i brofi dŵr gwastraff ar gyfer Covid-19 erbyn hyn yn medru cynnal profion am glefydau trosglwyddadwy ac yn cydweithio ag ysbytai.

Mae'r rhaglen yn darparu data hanfodol ar nifer yr achosion o'r coronafeirws yn y gymuned a bydd ychwanegu'r safleoedd allweddol hyn a chlefydau trosglwyddadwy ychwanegol at y gwaith monitro sydd eisoes ar waith ar draws Cymru er mwyn dyfnhau'r mewnwelediad a'r wybodaeth leol sydd ei angen wrth wneud penderfyniadau iechyd cyhoeddus.

Yn ogystal â phrofi ar gyfer SARS-CoV-2 ac amrywiadau eraill, mae'r tîm bellach wedi sefydlu dulliau ar gyfer profi am firysau eraill o ddiddordeb, gan gynnwys Polio, norofeirws a bygiau stumog eraill, ffliw a'r firws anadlol RSV ac ymwrthedd gwrthficrobaidd. Y cam nesaf yn natblygiad y rhaglen yw i'r partneriaid presennol gydweithio'n agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i fonitro dŵr gwastraff mewn naw ysbyty yng Nghymru.

Nod: Sicrhau bywydau iach a hyrwyddo llesiant i bawb o bob oed

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Datblygu'r gweithle o safbwyntiau seicolegol, ffisiolegol ac iechyd

Wnaeth busnesau yng Nghymru ac Iwerddon mynychu ar ddigwyddiad ar-lein rhad ac am ddim wedi'u trefnu gan Brifysgol Bangor i helpu nhw ddatblygu iechyd a lles yn y gweithle. Mae Rhwydwaith Geltaidd Arloesi Gwyddorau Bywyd Uwch yn cysylltu busnes, y byd academaidd a gofal iechyd ag arbenigwyr o chwe phrifysgol flaenllaw ar draws Iwerddon a Chymru.

Wnaeth blith amrywiaeth o weithdai, rhwydweithio ac ymgynghoriadau ar wahanol agweddau ar les cael eu darparu gan arbenigwyr mewn seicoleg, ffisioleg ac iechyd, a byddant yn cefnogi ac yn annog busnesau i ddatblygu a gwella eu gweithleoedd.

Podlediad yn rhannu profiadau bywyd y tu hwnt i ddiagnosis o ddementia

Mae podlediad newydd yn y gyfres Am Iechyd gan Goleg Gwyddorau Dynol Prifysgol Bangor ac a ariannwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn rhannu profiadau o fywyd tu hwnt i ddiagnosis o ddementia o safbwyntiau gwahanol. Y neges fwyaf a ddaw o'r drafodaeth ar y podlediad yw'r angen i geisio di-stigmateiddio'r cyflwr a siarad yn agored am sut i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.



Podlediad Am Iechyd

DYSGU A MYFYRWYR

Prifysgol Bangor yn recriwtio myfyrwyr i Ysgol Feddygol Gogledd Cymru ar gyfer 2024

Yn Ionawr 2023 bu Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru ymweld â'r Brifysgol, gan gyhoeddi y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu hyd at 140 o leoliadau i fyfyrwyr meddygaeth bob blwyddyn yn Ysgol Feddygaeth newydd y Gogledd. Bydd yr hyfforddiant yn dechrau yn 2024 gyda nifer y myfyrwyr yn cynyddu tan i'r ysgol gyrraedd capasiti llawn o 2029 ymlaen.

Mae sefydlu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru yn adlewyrchu ymroddiad Prifysgol Bangor i ddarparu cyfleoedd addysgol sydd â chysylltiadau dwfn â'r gymuned leol, mewn partneriaeth a'i phartneriaid iechyd meddwl ledled rhanbarth gogledd Cymru.

Rhaglen nyrsio cyn-gofrestru newydd ym Mhowys fel rhan o strategaeth 'tyfu eich hun' GIG Cymru i gynyddu'r gweithlu Nyrsio

Er mwyn mynd i'r afael â phrinder nyrsys y GIG mewn rhannau gwledig o Gymru, mae Prifysgol Bangor yn gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i ddarparu llwybrau dysgu nyrsio newydd i bobl sy'n byw ym Mhowys.

O fis Mawrth 2023, gall pobl sy'n byw ym Mhowys sydd eisiau ymuno â'r proffesiwn nyrsio ddilyn rhaglen nyrsio cyn-gofrestru ar gyfer nyrsio oedolion ac iechyd meddwl, gan ganiatáu i fyfyrwyr ennill gradd nyrsio, tra'n astudio yn eu cymuned leol.

Adnoddau a chyngor am lesiant 24/7

Yn ogystal â'r Gwasanaeth Llesiant yng Ngwasanaethau'r Myfyrwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol cymwys, gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol ac arbenigwyr gwybodaeth, caiff y myfyrwyr ddefnyddio Student Space i gael help a chyngor 24/7.

GWEITHREDIADAU

Prifysgol Bangor yn addo mynd i'r afael â stigma iechyd meddwl yn y gweithle

Wnaeth Prifysgol Bangor arwyddo Adduned Cyflogwr Amser i Newid Cymru yn Mai. Mae'r addewid yn ddatganiad cyhoeddus bod y Brifysgol wedi ymrwymo i fynd i'r afael â stigma iechyd meddwl a gwahaniaethu o amgylch iechyd meddwl, ac mae cynllun gweithredu yn amlinellu'r camau y bydd Prifysgol Bangor yn eu cymryd fel rhan o'r addewid.

Ariennir Amser i Newid Cymru gan Lywodraeth Cymru a'i ddarparu ar y cyd gan Adferiad/Recovery a Mind Cymru ac, ac yn ddiweddar cyflwynodd y sefydliad sesiwn ymwybyddiaeth i hyrwyddwyr lles staff a hyfforddwyr lles newydd Prifysgol Bangor.

Cyfleusterau Chwaraeon

Yn ogystal â darparu i'n 55 o glybiau myfyrwyr, mae Prifysgol Bangor hefyd yn darparu cyfleusterau chwaraeon i oddeutu 50 o glybiau, timau a grwpiau lleol. Canolfan Brailsford yw Canolfan Hamdden y Brifysgol ac mae'n darparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden i aelodau'r Brifysgol a'r cyhoedd.

Yn 2014, darparodd Prifysgol Bangor gyllid ar gyfer cae-pob-tywydd 3G newydd ar safle Stadiwm Prifysgol Bangor a chreu adnodd buddiol ar gyfer ystod ehangach fyth o glybiau lleol. Cafodd y dôm pêl-rwydd a thenis yn Nghanolfan Brailsford ei chyd-ariannu gan y Brifysgol a Chwaraeon Cymru a rhoddir blaenoriaeth i'r timau pêl-rwyd ieuenctid ac oedolion sy'n ei defnyddio.

Wal Dringo Canolfan Brailsford

YMCHWIL

Canllawiau newydd i sicrhau bod gwaith maes yn ngwyddorau'r amgylchedd yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob myfyriwr

Mae gwaith maes wrth wraidd addysgu ac ymchwil yng ngwyddorau'r amgylchedd ond gall fod yn rhwystr i rai myfyrwyr. Mae sicrhau bod addysgu a dysgu, yn benodol gwaith maes, yn hygyrch i bob myfyriwr gan gynnwys y rhai a all fod â rhwystrau megis anawsterau corfforol neu rwystrau anweledig yn hynod bwysig.

Mae tîm o ymchwilwyr dan arweiniad Prifysgol Bangor wedi datblygu 10 o ganllawiau i wneud gwaith maes yn fwy hygyrch i fyfyrwyr. Ariannwyd y project gan NERC a daeth ag addysgwyr ynghyd ar gyfer hacathon ymchwil a gweithdy i gydweithio a thrafod sut i chwalu'r rhwystrau y mae llawer o fyfyrwyr yn eu hwynebu mewn gwaith maes.

Pecyn dysgu amlgyfrwng cymdeithaseg

Nod: Sicrhau addysg gynhwysol a theg o ansawdd a hyrwyddo cyfleoedd dysgu gydol oes i bawb

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Prifysgol Bangor yn agor drysau i ddarpar beirianwyr ifanc

Wnaeth Prifysgol Bangor ymuno â'r Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET) fel trefnydd swyddogol yn fis Mehefin ar gyfer Wythnos Tŷ Agored Peirianneg eleni. Nod y digwyddiad yw helpu pobl ifanc 5-13 oed a'u gofalwyr a'u hathrawon i ddeall sut beth yw gweithio fel peiriannydd neu dechnolegydd trwy weithio gydag ystod eang o sefydliadau ledled y DU, sy'n agor eu drysau i gynnal arddangosfeydd rhyngweithiol, digwyddiadau, sgyrsiau a gweithdai sy'n annog plant i feddwl yn wahanol am beirianneg a thechnoleg.

Gall plant weld sut mae peirianneg a thechnoleg yn cael eu cymhwyso mewn amrywiaeth o swyddi ar draws gwahanol sectorau a chael eu hysbrydoli am ehangder gyrfaoedd creadigol ac arloesol yn y maes.

Pecyn adnoddau amlgyfrwng Prifysgol Bangor yn cipio Gwobr Adnodd Cyfrwng Cymraeg Rhagorol

Mae pecyn dysgu amlgyfrwng sy'n gynnig trosolwg o hanfodion Cymdeithaseg wedi derbyn y brif wobr yng nghategori Gwobr Adnodd Cyfrwng Cymraeg Rhagorol yn seremoni wobrwyo flynyddol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sy'n dathlu cyfleoedd i hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg.

Arweiniwyd y gwaith o greu'r pecyn gan yr Ysgol Hanes, Y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas. Mae'n cynnwys e-lyfrau, fideos a chartŵns, gyda'r bwriad o gefnogi myfyrwyr sy'n astudio Cymdeithaseg trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel A.

DYSGU A MYFYRWYR

Myfyriwr o Ysgol Busnes Bangor yn ennill gwobr fawreddog

Mae myfyrwyr graddedig MBA Rheolaeth Amgylcheddol Richard Hughes wedi ennill Myfyriwr Eithriadol y Flwyddyn y Sefydliad Rheolaeth Siartredig 2022 yng Nghinio Gwobrau a Llywydd CMI 2022, a chymerodd le yn Amgueddfa Hanes Naturiol yn Llundain ar y 22 Tachwedd 2022.

ALPHAcademi

Mae'r Academi Dysgu Cymhwysol ar gyfer Iechyd Ataliol (ALPHAcademi) wedi eu datblygu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Maent yn cynnig cyfres o weithdai ar-lein rhad ac am ddim i unrhyw un ar ystod o bynciau sy'n ymwneud ag iechyd ataliol. Mae'r pynciau'n cynnwys Hyfforddi a Mentora, Tegwch Iechyd a Hawliau Dynol, ac Iechyd Meddwl a Lles.

Prifysgol Bangor yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru

Ym mis Awst, cynhaliodd y Brifysgol nifer o ddigwyddiadau yn yr Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Oedd y Parth Gweithgareddau yn cynnwys rhoi cynnig ar y smwddis algâu, mynd i mewn i Swigen Ddynol Bangor a gwneud defnydd o'r piano ar gyfer ymarfer cyn cystadlu neu am adloniant!

Oedd y Babell Theatr yn cael ei defnyddio ar gyfer trafodaethau panel, sgyrsiau a digwyddiadau drwy gydol yr wythnos a lle oedd ymwelwyr, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr fwynhau panad a sgwrs.

Hefyd, oedd y Brifysgol yn y pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg hefo stondin fydd yn arddangos ymchwil bwysigrwydd mawndiroedd yng Nghymru a gweddill y byd. Wnaeth ymwelwyr yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn ein cwis mawn ac yn cael cynnig te ias 'Bog Juice'!

GWEITHREDIADAU

Cyn aelod o staff yn derbyn anrhydedd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am waith ehangu mynediad

Yn Fawrth anrhydeddir cyn-aelod o staff Prifysgol Bangor, Delyth Murphy, gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am ei chyfraniad arbennig i'r meysydd ehangu mynediad a dysgu gydol oes, a'i gwaith ar lefel strategol i hybu addysg cyfrwng Cymraeg.

Bu Prifysgol Bangor yn rhan annatod o fywyd Delyth Murphy ers degawdau: fel ysgrifenyddes, myfyrwraig hŷn, myfyrwraig MA ac yna yn yr Adran Dysgu Gydol Oes ac yng Nghanolfan Ehangu Mynediad y brifysgol, ble yr oedd yn Bennaeth nes ei hymddeoliad ychydig dros ddwy flynedd yn ôl.

Strategaeth Ehangu Mynediad

Mae'r Strategaeth Ehangu Mynediad newydd y Brifysgol yn cydnabod ei bod yn bosib na fydd gan fyfyrwyr o gefndir ehangu mynediad yr un gefnogaeth, ymwybyddiaeth a phrofiad ag eraill ar eu taith i mewn i addysg uwch, trwyddi a thu hwnt. Mae'n llai tebygol hefyd y bydd ganddynt gysylltiadau a rhwydweithiau a fydd yn fuddiol iddynt wrth fynd ymlaen i yrfa. Ein dull felly yw sicrhau bod myfyrwyr ehangu mynediad yn cael eu cyfeirio at y gefnogaeth sydd ar gael yn gyffredinol, a sicrhau hefyd bod cefnogaeth ychwanegol ar gael iddynt yn ôl yr angen.

Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin

Mae Prifysgol Bangor yn darparu cyrsiau Cymraeg ar bob lefel yng Ngwynedd, Conwy a Môn ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

YMCHWIL

Atal Gwaedlif Ôl-enedigol

Roedd ymchwilwyr Bangor yn ymwneud ag archwilio cost-effeithiolrwydd dyfais newydd atal gwaedlif ôl-enedigol o gymharu â gofal arferol. Cynhaliwyd y gwerthusiad economaidd o safbwynt Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) y Deyrnas Unedig.

Dewisiadau sy'n ymwneud â beichiogrwydd a chlefyd yr arennau

Gwnaed yr astudiaeth dulliau cymysg ledled y Deyrnas Unedig hon er mwyn deall yn well y ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar wneud penderfyniadau am feichiogrwydd o safbwynt merched, megis; effaith beichiogrwydd ar eu hiechyd ac effaith clefyd cronig yr arennau ar eu beichiogrwydd, pwysau teuluol, risg o drosglwyddo cyflwr etifeddol, erthyliadau naturiol, gorbryder, iselder ysbryd, teimladau o gywilydd ac euogrwydd, baich ar berthnasoedd, ac anghenion gofal cymdeithasol.

Canfu'r canlyniadau fod merched yn aml yn teimlo heb eu paratoi a heb wybodaeth ddigonol am eu hopsiynau atgenhedlu. Mae canlyniadau'n arwain at ddatblygu cymorth gwneud penderfyniadau ar y cyd newydd i'w ddefnyddio mewn ymarfer clinigol.

Nod: Cyflawni cydraddoldeb rhywedd a grymuso'r holl ferched a genethod

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched 2023

Ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched, wnaeth Helena Miguélez-Carballeira, Sue Niebrzydowski, Thora Tenbrink a Zoë Skoulding, sydd wedi'u penodi'n Ddeiliaid Cadair yn yr Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau yn Bangor, cyflwyno eu llwybrau ac adfyfyrio ar y cymunedau sydd wedi ffurfio a chefnogi eu gwaith.

Cyngerdd yn nodi rhyddhau CD newydd o gerddoriaeth gyfansoddwyr benywaidd

Roedd cyngerdd ym mis Medi yn rhan o weithdy Ailfeddwl Gwaith Merched mewn Cerddoriaeth yr Adran Gerdd, ac yn nodi lansiad CD, Unbroken Threads, yn cynnwys yr holl ddarnau a berfformiwyd. Mae cynhadledd ryngwladol deuddydd ar Waith Merched mewn Cerddoriaeth yn archwilio ac yn dadansoddi themâu hanesyddol, diwylliannol a gwleidyddol amrywiol gwaith merched ym myd cerddoriaeth.



Penodiad i Gadair

Daeth Dr Morwenna Spear yn Gadeirydd bwrdd y Grŵp Technoleg Pren IOM3 yn 2023. Mae Dr Spear wedi treulio blynyddoedd lawer yn gweithio ar driniaethau newydd ar gyfer pren. Mae hi hefyd yn angerddol dros hyrwyddo gwell defnydd o bren cartref a chysylltu'r tyfwyr pren, y proseswyr a'r defnyddwyr, fel y gall holl rannau'r gadwyn gyflenwi gydweithio a sicrhau bod y deunydd cynaliadwy perfformiad uchel hwn yn cael ei ddeall yn well.

DYSGU A MYFYRWYR

Ysgoloriaethau Bangor Gynhwysol 2022/23

Mae tair Ysgoloriaeth Bangor Gynhwysol wedi eu dyfarnu i dri o raddedigion eithriadol Prifysgol Bangor yn 2022, sef Kaitlin Corry, Jaime Johnston ac Evie Mainwaring.
Mae'r ysgoloriaethau (sy'n talu am hyd at £9500 o ffioedd cwrs) yn cefnogi myfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau ym Mangor.

Nod yr ysgoloriaethau yw tynnu sylw at amrywiaeth a chynwysoldeb ein poblogaeth o fyfyrwyr a dathlu hynny, er mwyn sicrhau bod llais a phrofiad myfyrwyr yn rhan o agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb ac agenda Athena Swan y brifysgol ac er mwyn cefnogi datblygiad gyrfa'r myfyrwyr hynny sy'n cyfrannu at y ddwy agenda bwysig hyn.

Adennill y Nos

Fis Mawrth, i godi lleisiau dros ddiogelwch a grymuso pawb a sefyll yn erbyn trais ac aflonyddu ar sail rhywedd a hunaniaeth, cefnogodd tua 50 o fyfyrwyr a staff orymdaith Adennill y Nos. Dechreuodd Adennill y Nos yn Leeds, yn 1977, fel ymateb i'r cyngor a roddwyd i ferched yng Ngorllewin Swydd Efrog aros i mewn, oherwydd y llofruddiaethau a gyflawnwyd gan y 'Yorkshire Ripper'.

Data Myfyrwyr 2022/2023

Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb Myfyrwyr diweddaraf yn nodi bod menywod yn cyfrif am 59.9% o'r holl fyfyrwyr, gyda 61.6% yn israddedigion a 57.3% yn ferched yn ôl-raddedigion.

GWEITHREDIADAU

Dydd Menopos y Byd

I ddathlu Dydd Menopos y Byd yn Hydref, wnaeth y Brifysgol cynnal digwyddiad i drafod pwysigrwydd tynnu sylw at y menopos yn y gweithle a chynnig cipolwg ar y ddogfen ganllaw ar y Menopos ynghyd â thrafod sut y gall y ddogfen helpu staff. Mae'r brifysgol nawr yn cynnig sesiynau Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Menopos ymarferol yn benodol ar gyfer rheolwyr llinell, i alluogi nhw gefnogi cydweithwyr. Mae Lolfa Menopos newydd hefyd yn cael ei lansio, a fydd yn cynnig lle i ddysgu a chael cefnogaeth gan gyfoedion bob mis.

Adroddiad y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2023

Ym Mhrifysgol Bangor, rydym wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb a byddwn yn parhau i hyrwyddo cyfle cyfartal, a chefnogi staff i ffynnu mewn gweithle dwyieithog, cynhwysol ac amrywiol. Mae'r Adroddiad am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2023 yn rhoi cipolwg ar y cynnydd yr ydym wedi ei wneud tuag at gyflawni'r ymrwymiad hwn. Unwaith eto rydym wedi gweld gostyngiad yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar lefel sefydliadol; mae'r bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau wedi gostwng o 5.8% y llynedd i 5.6%, ac mae'r bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau wedi gostwng o 13.2% y llynedd i 10.9%. Ers i ni ddechrau adrodd chwe blynedd yn ôl, mae'r bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yn y brifysgol wedi gostwng gan 5.5% ac mae'r bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau wedi gostwng gan 4.5%. Er ein bod yn cydnabod y newidiadau cadarnhaol hyn, mae ein ffocws ar leihau'r gwahaniaethau cyflog ymhellach.

Athena Swan

Ar ôl llwyddo i ennill 7 Gwobr Efydd Athena Swan dros y blynyddoedd, yn 2023 gwnaeth Prifysgol Bangor gais am Wobr Arian Athena Swan ar lefel Sefydliad.

YMCHWIL

Cysylltu mecaneg tywydd poeth ar lynnoedd a blymau a allai fod yn wenwynig

Mae un o lynnoedd dŵr croyw mwyaf y byd yn profi'n fodel defnyddiol i ragweld sut mae tywydd poeth yn sbarduno blymau syanofacteria a allai fod yn niweidiol mewn llynnoedd dŵr croyw. Mae astudiaeth o lyn yn Tsieina, sy'n ffynhonnell bwysig o ddŵr i fwy nag 20 miliwn o bobl ac i ddiwydiant, yn dangos y mecanweithiau rhwng tywydd poeth ar lynnoedd a 'blymau' syanofacteraidd a allai fod yn wenwynig.

Llyn Taihu, Tsieina

Mae ymchwil y Prifysgol, Phrifysgol Aarhus, Denmarc, a Academi Gwyddorau Tsieina, Nanjing, yn astudio'r tywydd poeth a brofwyd yn 2022 yn Llyn Taihu, un o lynnoedd dŵr croyw mwyaf yn nelta Yangtze, ac mae'r syanofacteria dan sylw'n lluosi mewn nifer. Cynnydd yn nhymheredd yr aer ar yr wyneb yw un o ganlyniadau mwyaf cydnabyddedig y newid yn yr hinsawdd o waith dyn. Mae cynnydd yn nhymheredd dŵr wyneb y llyn yn effeithio ar holl amgylchedd y llyn.

Nod: Sicrhau bod dŵr a glanweithdra ar gael i bawb a'u bod yn cael eu rheoli'n gynaliadwy

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Nid arian i lawr y draen i Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yw'r dŵr sy'n mynd i lawr y draen yng Nghastell Penrhyn

Mae ymchwilwyr o Goleg y Drindod Dulyn a Phrifysgol Bangor yn arwain ar broject pum mlynedd gyda'r nod o rwystro ynni defnyddiol rhag mynd i lawr y draen. Maent wedi treialu system sy'n adennill ynni o ddŵr gwastraff yng Nghastell Penrhyn, sef castell a gerddi sy'n eiddo i Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru nid nepell o Fangor.

Trwy ddefnyddio'r dechnoleg newydd, mae'r ymchwilwyr yn echdynnu gwres o'r dŵr gwastraff poeth sy'n llifo allan o'r ceginau, ac sydd rywle rhwng 20°C a 55°C, ac yn ei ddefnyddio i gynhesu'r dŵr oer sy'n mynd i mewn i'r ceginau. Mae'r system adennill gwres wedi bod yn weithredol ers mis Chwefror 2022 yng Nghastell Penrhyn. Cynhaliwyd digwyddiad lansio ffurfiol ar ddydd Mawrth, 11 Hydref i dynnu sylw at yr effaith o ran arbed ynni a'r effaith ar yr hinsawdd y llwyddodd y dechnoleg hon i'w chael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Cefnogir y project hwn gan sawl cwmni gwahanol sydd wedi darparu arbenigedd wrth ddatblygu'r project hwn, yn cynnwys Detectronic, defnyddiwyd eu technoleg i fonitro llif dŵr gwastraff, a Showersave, caiff eu technoleg ei haddasu i adennill gwres yn y Castell.

Dŵr Uisce
Energy recovery in water services
Adennill ynni yn y diwydiant dŵr

Prosiect Dŵr Uiscet

DYSGU A MYFYRWYR

Mynd i'r Afael â Thlodi Mislif ac Urddas Mislif i bawb

Wnaeth y Cynllun Peilot Tlodi ac Urddas Mislif cael ei lansio ym mis Ionawr 2020 gan yr Undeb y Myfyrwyr, Undeb Bangor, a ariennir gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW), ac Interniaeth i Raddedigion Penodwyd fel Swyddog Prosiect i helpu i reoli'r cynllun peilot.

Ei phrif nod oedd mynd i'r afael â thlodi misglwyf drwy sicrhau bod pob myfyriwr yn cael mynediad am ddim at gynhyrchion mislif fel anghenraid. Roedd hyn yn cynnwys yn cynnig amrywiaeth o gynhyrchion di-blastig, untro a chynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio. Eilaidd i hyn, fel rhan o daith i gyflawni urddas misglwyf i bawb i'r rhai sy'n cael mislif, lansiodd cynllun i addysgu, grymuso ac ysbrydoli myfyrwyr ar y mislif.

Ers hynny mae'r cynllun wedi tyfu a chael ei ariannu gan y Brifysgol. Mae cynhyrchion mislif ar gael nawr mewn amrywiaeth o doiledau ferched, gwrywaidd, a thoiledau niwtral o ran rhyw ar draws campysau Bangor a Wrecsam hefyd o fewn siopau ar gampws Bangor.

Cynhyrchion Mislif Untro ar y Campws

Dŵr yfed am ddim

Mae'r Brifysgol yn darparu dŵr yfed am ddim yn y mwyafrif o'i hadeiladau. Yn ogystal, mae nifer o fannau i ail-lenwi poteli dŵr ledled y safle yn yr unedau arlwyo a mannau eraill yn ogystal.

GWEITHREDIADAU

Defnydd Dwr

Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23, defnyddiodd Prifysgol Bangor fwy na 129,867 metr ciwbig o ddŵr. Mae'r Brifysgol yn gosod targedau iddi'i hun i leihau'r defnydd o ddŵr fel rhan o'i System Rheoli Amgylcheddol. Rhwng 2005 a 2023, gostyngwyd cyfanswm y defnydd o ddŵr 35.6% fesul arwynebedd llawr m2.



Defnydd Dŵr Prifysgol Bangor

Safonau Cadwraeth Dŵr

Amcanion y Safonau Cadwraeth Dŵr (Y Safonau) yw hyrwyddo a gweithredu arferion rheoli dŵr cynaliadwy sy'n lleihau defnydd dŵr ac yn annog defnydd cyfrifol ar ddŵr ar gampws y Brifysgol.

Bydd y Safonau hefyd yn helpu'r Brifysgol gefnogi ei strategaethau di-garbon net hithau a rhai Llywodraeth Cymru a mentrau dŵr cynaliadwy lleol, cenedlaethol a byd-eang.

Map Mannau Ail-lenwi Dŵr Prifysgol Bangor

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Cynlluniau dŵr bach yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon: Effaith y newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol ar y dŵr sydd ar gael a chynhyrchu pŵer

Mae cynlluniau ynni dŵr bach ar afonydd yn sector sy'n tyfu yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Maent yn chwarae rhan fach ond pwysig o ran datgarboneiddio'r grid, cyfrannu at y targedau cenedlaethol i leihau allyriadau, a chynnig buddion cymunedol. Fodd bynnag, mae'r newid yn yr hinsawdd at y dyfodol yn bygwth newid maint llif ac amseriad y dŵr, gan effeithio ar faint o ddŵr sydd ar gael i'w ddefnyddio mewn cynlluniau o'r fath, a'u potensial i gynhyrchu pŵer.

Cyflwynodd seminar cyhoeddus ym mis Hydref gwaith sy'n mesur effaith y senario waethaf o ran y newid yn yr hinsawdd a'r dyfodol ar ddefnyddio dŵr a chynhyrchu ynni dŵr mewn dros 500 o safleoedd yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Defnyddir modelau hydrolegol a rhagamcanion diweddaraf y Deyrnas Unedig ar gyfer y newid yn yr hinsawdd, a bydd canlyniadau cenedlaethol yn cael eu cyflwyno a'u cymharu. Trafodir hefyd y ffordd orau o gynllunio a dylunio cynlluniau ynni dŵr ar afonydd at y dyfodol i gynhyrchu'r pŵer mwyaf posib, ac amddiffyn yr amgylchedd yr un pryd.

Nod: Sicrhau bod ynni fforddiadwy, dibynadwy, cynaliadwy a modern ar gael i bawb

YMCHWIL

Dysgu o'r gorffennol, i bweru'r dyfodol

Mae'r Adran dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net wedi comisiynu Arup, yr ymgynghoriaeth datblygu cynaliadwyedd byd-eang, y Labordy Niwclear Cenedlaethol, labordy'r Deyrnas Unedig ar gyfer ymholltiad niwclear, a'r Sefydliad Dyfodol Niwclear ym Mhrifysgol Bangor i gydweithio i nodi a mapio'r deunydd hanesyddol sydd ar gael o ran ymchwil, datblygu a chyflwyno niwclear, a allai gefnogi datblygiad a darpariaeth Uwch Dechnolegau Niwclear fel rhan o'r amrywiaeth ynni carbon isel diogel.

Mae'r project Casglu Gwybodaeth am Adweithyddion Modiwlaidd Uwch wedi'i gynllunio i gefnogi rhaglen ymchwil, datblygiad a darpariaeth Adweithyddion Modiwlaidd Uwch a chyflwyniad ehangach o'r adweithyddion hynny yn y Deyrnas Unedig, er mwyn helpu i gyflawni targed allyriadau nwy sero net y llywodraeth erbyn 2050.

Project gwerth £2M yn asesu effaith ffermydd gwynt ar y môr ar yr ecosystem

Mae gwyddonwyr o Brifysgol Bangor yn arwain ar ymchwil i'r project ECOWind-ACCELERATE newydd, sydd werth £2m, a fydd yn nodi manteision cadwraeth rhywogaethau a chynnydd net mewn bioamrywiaeth o amgylch ffermydd gwynt gan hefyd gefnogi datblygwyr ffermydd gwynt i gynllunio strategaethau monitro amgylcheddol fydd yn mynd y tu hwnt i oes y project hwn.

Gyda ffermydd gwynt ar y môr ar gynnydd yn rhan o gynlluniau brys i newid o danwydd ffosil, ynghyd ag effeithiau cronnol newid yn yr hinsawdd, mae'n hollbwysig ein bod yn deall sut mae newidiadau i wely'r môr yn effeithio ar yr ecosystem forol ehangach.

DYSGU A MYFYRWYR

Bydd project Transship II gwerth £5.5m yn gweld llong ymchwil fawr yn y Deyrnas Unedig yn cael ei phweru gan hydrogen

Disgwylir i unig long ymchwil o fewn addysg uwch yn y Deyrnas Unedig, y Prince Madog, leihau ei hallyriadau hyd at 60% diolch i fenter ynni hydrogen arloesol gwerth £5.5 miliwn a allai helpu i ail-lunio dyfodol llongau.

Yn ddiweddar, dathlodd y Prince Madog, sy'n eiddo ar y cyd gan Brifysgol Bangor yng Nghymru, 20 mlynedd o wasanaeth i addysg a gwyddoniaeth. Mae'r llong ymchwil wedi newid y ffordd yr ydym yn deall gwyddorau môr ac arfordirol a dyma'r unig un o'i bath yn y Deyrnas Unedig ac un o'r rhai mwyaf yn Ewrop.

Bydd y system gyriant hydrogen newydd, a fydd yn gweithio ar y cyd â phrif injan tanwydd disel, yn galluogi gweithrediad allyriadau sero ar gyflymder araf neu dros bellteroedd byr - megis teithiau dysgu dyddiol gyda myfyrwyr o Ysgol Gwyddorau Eigion Prifysgol Bangor. Mewn gweithrediad arferol, bydd y system hybrid a dyluniad gyriant newydd yn lleihau allyriadau hyd at 60%.

Astudio

Nod y radd MSc yn Ynni Adnewyddadwy'r Môr yw rhoi'r sgiliau i fyfyrwyr sydd eu hangen i nodi a mesur potensial rhanbarthau ar gyfer gosodiadau ynni adnewyddadwy'r môr, gyda phwyslais ar adnodd, dadansoddi cyfres amser, modelu rhifiadol, a'r sialensiau a wynebir wrth roi rhesi o ddyfeisiadau cynhyrchu ynni yn amgylchedd y môr.

Mae modiwl Ynni Adnewyddadwy yn archwilio'r adnoddau ynni cyfredol, y defnydd, effeithlonrwydd a pholisi. Yna mae'r cwrs yn edrych ar adnoddau adnewyddadwy amgen yn lle tanwyddau ffosil sy'n cynnwys technolegau hylosg a thechnolegau di-hylosg ynghyd â materion cysylltiedig sy'n ymwneud â storio a dosbarthu ynni.

GWEITHREDIADAU

Defnydd Ynni ym Mangor

Yn ystod blwyddyn 2022/23, defnyddiodd y Prifysgol oddeutu 32.4 miliwn kWh o ynni, sy'n cyfateb i'r defnydd ynni blynyddol o oddeutu 2,288 o gartrefi cyfartalog y DU. Roedd y rhan fwyaf o'r egni hwn (tua 55.3%) ar ffurf nwy naturiol ar gyfer gwresogi adeiladau a darparu dŵr poeth. Cyfanswm yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â defnydd y Brifysgol o nwy naturiol oedd 3,286 tunnell CO2e ar gyfer 2022/23.

Trydan ar gyfer goleuadau, cyfrifiaduron ac offer arall oedd y math mwyaf arwyddocaol nesaf o ddefnydd ynni yn y Brifysgol (13.9 miliwn kWh oddeutu 42.9%). Roedd y 1.8% arall o'r defnydd o ynni ar ffurf LPG ac Olew Gwresogi, i ddarparu gwres i'n hadeiladau nad ydynt wedi'u cysylltu â phrif gyflenwad nwy.

Cynhyrchwyd 110,337.64 kWh ychwanegol gan baneli solar ar y to, a'i ddefnyddio gan adeiladau'r Brifysgol yn unig.



Cyfanswm Defnydd Ynni Prifysgol Bangor

Lleihau Defnydd Ynni

Mae ynni yn un o dri llinyn allweddol ymgyrch gynaliadwyedd 25 erbyn 25 y staff a'r myfyrwyr. Nod y Brifysgol yw gostwng 25% o'i hallyriadau carbon deuocsid (CO2e) mewn tair blynedd. Mae'n darged uchelgeisiol ond credwn y gallwn ei gyflawni, trwy edrych ar wahanol ffyrdd o fyw, astudio a gweithio'n fwy cynaliadwy, a hynny'n syml trwy ffurfio ychydig o arferion newydd.



YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Datgelu cynlluniau ar gyfer ail adeilad uchelgeisiol ar Barc Gwyddoniaeth

Mae parc gwyddoniaeth bwrpasol cyntaf Cymru yn datgelu cynlluniau ar gyfer datblygu ail adeilad ar eu safle yn Ynys Môn. Bydd y gofod ychwanegol yn galluogi Parc Gwyddoniaeth Prifysgol Bangor: M-SParc i barhau â'i waith yn cefnogi busnesau i dyfu, gan greu gyrfaoedd sy'n talu'n dda i bobl leol, ac ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol.

Dim ond 5 mlynedd ar ôl i M-Sparc agor, mae'n barod i dyfu eto. Gan ganolbwyntio ar gefnogi cwmnïau ac ymchwil yn y sector carbon isel, a datblygu cyfleoedd sgiliau a chyflogaeth, bydd M-SParc 2.0 yn helpu i gyflawni cenhadaeth M-SParc i danio uchelgais ac arloesedd i gael Cymru gynaliadwy.

Mae cwmnïau yn M-SParc yn talu cyflogau sy'n fwy na £5,000 y flwyddyn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Fydd M-SParc 2.0 yn canolbwyntio ar y sector carbon isel, ac mae'n adeiladu ar gryfderau ymchwil y Brifysgol. Mae M-SParc eisoes dîm 'Egni' Carbon Isel sydd wedi bod yn cynnal adolygiadau Carbon Isel ar gyfer cwmnïau ar draws y rhanbarth, ac yn gweithio tuag at sicrhau mai M-SParc ydy'r parc gwyddoniaeth gyntaf yn y DU i gyrraedd Sero Net erbyn 2030.

Nod: Hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy, cynhwysol a chyson, cyflogaeth lawn a chynhyrchiol a gwaith o safon i bawb

YMCHWIL

Rôl busnesau bach a chanolig yn economi'r DU

Ystyrir busnesau bach a chanolig (BBaCh) fel asgwrn cefn economi'r Deyrnas Unedig ac maent yn chwarae rhan hanfodol wrth wella cyflogaeth a thwf economaidd yn y Deyrnas Unedig. Wnaeth y webinar cyflwyno sut orau y gall cwmnïau ddefnyddio arloesedd agored i ehangu'n rhyngwladol a manteisio ar eu hadnoddau a'u galluoedd i lwyddo mewn marchnadoedd tramor a chael gwell perfformiad.

Mae adfer gwres ac ailddefnyddio dŵr mewn micro-ddistyllfeydd yn gwella eco-effeithlonrwydd cynhyrchu alcohol

Mae nifer y distyllfeydd gwirodydd micro-raddfa ledled y byd wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf. Gyda'r cyfrifoldeb ar y sector distyllfeydd i leihau ei effaith amgylcheddol, megis allyriadau carbon, mae angen gweithredu cyfleoedd i gynyddu effeithlonrwydd ynni. Mae'r astudiaeth hon yn archwilio'r buddion amgylcheddol posibl a'r enillion ariannol y gellir eu cyflawni trwy adfer gwres o wahanol brosesau a ffrydiau sgil-gynhyrchion, a enghreifftir ar gyfer distyllfa wisgi, ond y gellir eu trosglwyddo i ficro-ddistyllfeydd ledled y byd.

Distyllfa Wisgi

DYSGU A MYFYRWYR

Rhaglen Cefnogi Graddedigion

Cynigiodd Rhaglen Cefnogi Graddedigion y Brifysgol Gyfres Sgiliau Haf ym mis Mehefin, lle dysgodd myfyrwyr sut i adeiladu rhwydwaith, aros yn wydn a chryf eu cymhelliad, a hyd yn oed goresgyn syndrom twyllwr.



Cyfres Sgiliau Haf

Cyflogadwyedd

Gall holl raddedigion Prifysgol Bangor fanteisio ar gyfrif 'am oes' ar ein llwyfan CyswlltGyrfa, lle gallwch chwilio am swyddi a chyfleoedd eraill, a chael mynediad at amrywiaeth o offer ac adnoddau defnyddiol. Ymhellach, cewch hefyd fynediad at becyn o gefnogaeth ac adnoddau wedi'u teilwra'n arbennig i chi am dair blynedd ar ôl graddio.

Mae ein cefnogaeth tair blynedd yn cynnwys:

- Cymorth ac adborth ar gyfer CV a gwneud ceisiadau
- Paratoi at Gyfweliad
- Cynorthwyo graddedigion ansicr / pryderus 'beth i'w wneud nesaf'
- Gwella'r chwilio am swyddi / cyfleoedd
- Rhoi cynnig ar ddulliau newydd os bu graddedigion yn aflwyddiannus gyda'u ceisiadau
- Archwilio ffyrdd o ennill profiad a sefydlu/ gwella eu rhwydweithiau

GWEITHREDIADAU

Polisïau a Gweithdrefnau

Mae gan Brifysgol Bangor nifer o bolisïau ac arferion swyddi. Mae'r Brifysgol yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig a hefyd yn cydnabod tair undeb lafur. Wedi ymrwymo i gydraddoldeb, mae yna Bolisi Cyflog Cychwynnol, Datganiad ar Gaethwasiaeth a Masnachu Pobl, Datganiad Polisi Cyfartaledd, ac Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau. Mae'r Brifysgol hefyd efo set o bolisïau i gefnogi gweithwyr gan gynnwys, Polisïau Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadau, Rhiant a Rennir a Seibiant Rhieni, Absenoldeb Gofalwyr ac opsiynau gweithio'n hyblyg.

Gweithgareddau Ymgysylltiad Dinesig

Mae ein gwaith Ymgysylltu Dinesig yn eang a amrywiol a'r gwaith o dan y Strategaeth Ymgysylltiad Dinesig yn dod o dan dair thema ymbarél:

- Gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi a mynd i'r afael â heriau cymdeithasol (e.e. yr heriau 'mawr' o iechyd, hinsawdd, yr iaith Gymraeg, tai, tlodi, poblogaeth sy'n heneiddio, ac eraill);
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau twf economaidd a chynaliadwyedd; a
- Gwella ansawdd bywyd trwy ymgysylltu cymdeithasol a diwylliannol.

M-SParc

Cenhadaeth M-SParc yw tanio uchelgais ac arloesedd i bweru Cymru gynaliadwy. Mae busnesau M-SParc wedi tyfu ac mae'n adnabyddus ac yn cael ei barchu am ei waith, ei ddiwylliant, ei brosesau a'i effaith, Maen nhw'n cyflogi mwy o bobl mewn swyddi sy'n talu'n well, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac iaith yn lleihau, ac mae'r trosiant a'r cynhyrchiant wedi cynyddu'n ddirfawr. Maent yn gallu cynnig cefnogaeth ym mhob maes, boed yn Gyllid, Eiddo Deallusol, Sgiliau, Cydweithrediadau Ymchwil, Digwyddiadau, Parodrwydd Buddsoddwyr, neu Adnoddau Dynol a mwy.

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Parc Gwyddoniaeth ac AMRC Cymru yn dod at ei gilydd i sbarduno arloesedd ar draws gogledd Cymru

Mae M-SParc, Parc Gwyddoniaeth gyntaf Cymru, sy'n eiddo i Brifysgol Bangor, a AMRC Cymru, wedi llofnodi cytundeb i ganiatáu iddyn nhw weithio mewn partneriaeth, yn galluogi cwmnïau cael mynediad ehangach at gefnogaeth, sgiliau, arbenigedd a chyfleusterau a all ddatblygu eu busnes.

Llywodraeth Cymru ac M-SParc yn cyhoeddi £2.5m i gefnogi arloesedd

Yn Orffennaf bu Gweinidog yr Economi, Llywodraeth Cymru Vaughan Gething ymweld â M-SParc i gyhoeddi Cymorth Llywodraeth Cymru a £2.5 miliwn o gyllid tuag at ail adeilad i'r Parc Gwyddoniaeth arloesol, gan barhau ar y daith i greu cyfleoedd economaidd pellach yn y rhanbarth.

Mae'r cyllid yma'n golygu y gall y prosiect uchelgeisiol nawr gymryd ei gam cyntaf tuag at ddatblygu cyfleuster sy'n canolbwyntio ar arloesi carbon isel a di-garbon, gan sicrhau bod mwy o gwmnïau'n gallu cael mynediad at swyddfeydd a labordai yn ogystal â chyfres lawn o wasanaethau cymorth busnes pwrpasol, gyda ffocws ar gefnogi cwmnïau ac ymchwil yn y sector carbon isel.

Nod: Adeiladu seilwaith cadarn, hyrwyddo diwydiannu cynhwysol a chynaliadwy a meithrin arloesi

YMCHWIL

Gweithio gyda Meta ar fydoedd cefnforol realiti cymysg

Mae darlithydd o Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig Prifysgol Bangor yn gweithio gyda'r cwmni technoleg o fri, Meta, ar nodweddion newydd a fydd ar gael yn fuan fel rhan o'r parc saffari dyfrol rhithrealiti Ocean Rift.

Bydd yr 'acwariwm realiti cymysg' newydd yn galluogi defnyddwyr i fynd un cam ymhellach a chael profiad realiti cymysg, sy'n debyg i realiti rhithwir ond lle gallwch chi weld y byd o'ch cwmpas o hyd trwy gamerâu a synwyryddion dyfnder. Ar gyfer Ocean Rift, golyga hyn y gall defnyddwyr greu golygfeydd acwariwm o fywyd y môr yn y mannau maen nhw'n byw eu bywydau beunyddiol trwy osod ffenestri rhithwir lle bynnag y dymunant.

Gall synwyryddion gwydr newydd wneud ymasiad niwclear masnachol yn ymarferol

Mae cenhedlaeth newydd o synwyryddion gwydn sy'n gallu monitro adweithyddion ymasiad niwclear masnachol mewn amser real yn cael eu datblygu gan dîm a arweinir gan Brifysgol Bangor mewn partneriaeth â Phrifysgol Sheffield Hallam. Mae'r tîm yn bwriadu nodi a allai synwyryddion gwydr a ddatblygwyd yn y 1960au weithredu o dan amodau eithafol adwaith ymasiad niwclear. Os na, bydd yr ymchwilwyr yn dylunio ac yn datblygu synwyryddion gwydr newydd.

M-SParc, Parc Gwyddoniaeth gyntaf Cymru sy'n eiddo i Brifysgol Bangor

DYSGU A MYFYRWYR

A allwn ni drwsio'r blaned? – myfyrwyr a staff yn archwilio

Yn nigwyddiad trwsio'r blaned yr ysgol, bu myfyrwyr a staff yn yr Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig yn archwilio datrysiadau posibl, dyluniadau unigryw, ac yn creu fideo byr yn cyflwyno'u syniadau. Cynhaliwyd y digwyddiad ar 1 Tachwedd 2022, a hynny i ddathlu 'Diwrnod Cenedlaethol Peirianneg' 2022.

Cyflwynodd tri grŵp eu canlyniadau, gyda phob un yn canolbwyntio ar her wahanol. Meddyliodd y grŵp cyntaf am y broblem y mae methan yn ei chreu i'r amgylchedd. Roedd yr ail grŵp yn canolbwyntio ar farn pobl gan feddwl sut gallen nhw newid eu harferion. Canolbwyntiodd y trydydd grŵp ar wastraff. Roeddent yn cloriannu sut y gallent wella sut mae pobl yn ailgylchu ac yn gwaredu eu sbwriel, gan ddatblygu bin sbwriel arbennig.

Menter trwy Ddylunio: Myfyrwyr yn disgleirio mewn arloesedd ac arweinyddiaeth

Daeth y rhaglen Menter trwy Ddylunio, ar y cyd â menter Hyfforddiant Arwain Arloesedd (BUILT) Prifysgol Bangor, i'w hanterth mewn rownd derfynol wefreiddiol a gynhaliwyd yn Pontio yn Mai 2023.

Cyflwynodd wyth tîm o fyfyrwyr eu datrysiadau busnes arloesol yn cyd-daro ag ymgyrch Bangor #Bangor25erbyn25, a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, i ymchwilio a deall bwyd yn y Gogledd, gan gynnwys cynhyrchu bwyd, cynaliadwyedd, a chyfleoedd i bobl gynhyrchu eu bwyd eu hunain.

Cafodd y tîm buddugol, Trosi Coffi grant o £4,000 i ddatblygu eu busnes o drawsnewid gwastraff coffi'n gynnyrch defnyddiol. Daeth Harvest Horizon, i'r ail safle, gan ennill £1,000 i hybu eu syniad arloesol.

GWEITHREDIADAU

Prifysgol Bangor yn cydweithio gyda chymdeithas dai Adra er mwyn datblygu sgiliau ac ymchwil ym maes ddatgarboneiddio'r stoc dai

Mae'r cytundeb yn gweld Prifysgol Bangor yn dod yn bartner allweddol yn yr Hwb Datgarboneiddio, cyfleuster a sefydlwyd ym Mhenygroes yn 2021 gyda'r cwmni deunyddiau adeiladu Travis Perkins, a gefnogir gan Gronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU a Chronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

Bydd yr Hwb Datgarboneiddio yn gweithredu fel cyfleuster i arloesi, darparu hyfforddiant sgiliau a datblygu a phrofi deunyddiau newydd a sut y gallent gael eu defnyddio i gefnogi datgarboneiddio. O fewn y maes arbennig hwn y gwelodd Adra a Phrifysgol Bangor y cyfle i gydweithio.

Cefnogaeth i'r rhai sy'n meddwl am ddechrau mentrau cymdeithasol neu eu busnesau eu hunain neu ddechrau ar yrfa yn gweithio ar eich liwt eu hun

Mae B-Fentrus yn rhoi amrywiaeth o gyfleoedd i fyfyrwyr a graddedigion sydd yn cynnwys Cronfa Entrepreneuriaeth i gefnogi datblygu syniad neu fusnes; Grantiau lleoliad hunangyflogaeth o £1,500; Mentora busnes un-i-un gyda'n Cydlynydd Cychwyn Busnes i Raddedigion; Aelodaeth flynyddol IPSE yn rhad ac am ddim i'r rhai sydd â diddordeb mewn gweithio ar eu liwt eu hunain; Man deori yn M-SParc, sef Parc Gwyddoniaeth y Brifysgol ar gyfer y rhai sy'n agos at ddechrau busnes.

YMCHWIL

Ap cod agored newydd yn hwyluso ymchwil i ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol

Lansiwyd ap cod agored newydd a fydd yn hwyluso'r ffordd y mae ymchwilwyr yn casglu data am boblogaethau dwyieithog sy'n siarad iaith leiafrifol/lleiafrifedig neu ranbarthol yn ogystal ag iaith fwyafrifol.

Datblygwyd gan dîm ymchwil Agweddau at Iaith sydd o fewn Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau Prifysgol Bangor, mae'n cynnig siop un stop ar gyfer pedwar math gwahanol o ddulliau casglu data a ddefnyddir yn gyffredin mewn ymchwil dwyieithog. Yn ôl datblygwyr yr ap, mae potensial mawr hefyd iddo gael ei ddefnyddio fel dull addysgu, yn enwedig mewn perthynas ag ymchwil traethawd hir.

Mis Hanes LHDTC+

Nod: Lleihau anghydraddoldeb o fewn ac ymhlith gwledydd

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Hyrwyddo amrywiaeth a dealltwriaeth o fewnfudo trwy opera

Wnaeth digwyddiad yn Brifysgol Bangor ceisio archwilio themâu allweddol o Bhekizizwe, monodrama operatig ar fewnfudo, hiliaeth, amrywiaeth – i gyfrannu at ddealltwriaeth y cyhoedd a datblygu sgwrs gyhoeddus gadarnhaol am y materion hyn, yn enwedig yn sector y celfyddydau.

Arwain y gwaith o gyflwyno Prifysgol y Plant yng Ngogledd-orllewin Cymru

Mae cynllun sy'n torri tir newydd, gyda'r nod o ysbrydoli brwdfrydedd am ddysgu ymhlith plant a phobl ifanc yng ngogledd Cymru drwy hyrwyddo mynediad at weithgareddau allgyrsiol, yn cael ei ymestyn ar ôl sicrhau cyllid gwerth dros £800,000.

Bydd Prifysgol Bangor yn gweithio gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ac eraill i roi'r cynllun dan brawf dros y flwyddyn nesaf fel rhan o ymrwymiad i genhadaeth ddinesig gyffredin i weithio mewn partneriaeth er mwyn rhoi diwedd ar anghydraddoldeb cymdeithasol yn y rhanbarth. Yn gweithio gydag ysgolion, grwpiau cymunedol a pharthau dysgu ar draws yr ardal, yn annog plant a phobl ifanc i gwblhau 30 awr o weithgareddau allgyrsiol a gwirfoddol, a'r nod pendraw yw gwella uchelgais a gwobrwyo cyfranogiad.

Mis Hanes LHDTC+

Cynhelir cyfres o sgyrsiau gan Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor, yn Chwefror, i nodi Mis Hanes LHDTC+. Oedd y sgyrsiau wedi anelu at fyfyrwyr Safon Uwch ac yn ystyried agweddau crefyddol, athronyddol, a hanesyddol ar LHDTC+.

DYSGU A MYFYRWYR

Gala Un Byd yn dathlu amrywiaeth ym Mangor

Ar y 9fed o Fawrth, wnaeth Prifysgol Bangor dathlu amrywiaeth a doniau ymysg ei myfyrwyr, staff a'r gymuned leol, gyda'i digwyddiad blynyddol Gala Un Byd. O glocsiau Cymreig i ddetholiad o ganeuon Indonesia, dawnsio Bollywood Indiaidd ac offerynnau traddodiadol Tsieineaidd, roedd yna berfformwyr yn cynrychioli sawl cornel o'r byd. Roedd y digwyddiad yn orlawn wrth i fyfyrwyr, staff ac aelodau o'r gymuned leol fwynhau'r cyngerdd rhad ac am ddim, a drefnwyd gan y Tîm Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol.

Mae'r Tîm Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol wedi bod yn trefnu'r Gala ers dros ddegawd, ac mae'r digwyddiad yn cynyddu ac yn gwella o hyd. Yn ogystal â'r perfformiadau amrywiol a oedd yn cael eu harddangos, cododd y digwyddiad arian hefyd at apêl Daeargryn y DEC i gefnogi'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan y trychineb diweddar yn Nhwrci a Syria.

Gala Un Byd

Data Myfyrwyr 2022/2023

Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb Myfyrwyr diweddaraf yn nodi bod 8.1% o'r holl myfyrwyr Brifysgol Bangor sy'n hanu o'r DU nodwyd fel Du, Asiaidd, a Lleiafrifoedd Ethnigrwydd yn 2022/23. 21.9% o fyfyrwyr a gofnodwyd fel rhai ag anabledd.

GWEITHREDIADAU

Mis Pride

Wnaeth y Brifysgol cefnogi'r gymuned LHDTC+ drwy chwifio'r faner enfys yr wythnos hon yn ystod dathliadau mis Pride. Mae' Rhwydwaith LHDTC+ yn agored i unrhyw un sy'n gweithio ym Mhrifysgol Bangor ac unrhyw fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n nodi eu bod yn lesbiaidd, hoyw, bi, traws, queer neu holi, ynghyd â ffrindiau a chynghreiriaid ein cymuned.

Cefnogi'r gymuned LHDTC+ drwy chwifio'r faner enfys yn ystod dathliadau mis Pride

Mis Hanes Pobl Dduon 2022

Nododd Undeb Bangor, Undeb y Myfyrwyr, Fis Hanes Pobl Ddu ym Mangor gydag amrywiol ddigwyddiadau diwylliannol, teithiau, a sgyrsiau. Fel rhan o'r ymgyrch, cynhaliodd Undeb Bangor ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd yn rhannu gwybodaeth am Hanes Pobl Ddu'n leol a ledled Cymru.

Digwyddiadau Mis Hanes Pobl Dduon

YMCHWIL

Creu cysylltiadau rhwng lle ac Ynni Adnewyddadwy Cymunedol

Wnaeth cyflwyniad yn fis Rhagfyr trafod canfyddiadau astudiaeth PhD sy'n canolbwyntio ar adnabod beth yw rôl ac ystyr cymuned ac ymlyniad wrth le i gymunedau Cymreig o fewn cyd-destun ynni adnewyddadwy cymunedol, yn y projectau hyn sy'n aml yn seiliedig ar le.

Mae'r astudiaeth yn manylu ar sefyllfa gyd-destunol y projectau ynni adnewyddadwy ar draws yr astudiaethau achos, gan nodi'r berthynas rhwng cymunedau, eu tirwedd ac ynni adnewyddadwy. Yn bwysig ddigon, roedd y canfyddiadau'n amlygu sut roedd ymlyniad wrth le nid yn unig yn cynnig cyd-destun ar gyfer ymgysylltiad cymunedau â phrojectau ynni adnewyddadwy cymunedol ond hefyd yn llunio'r ymgysylltiad hwnnw.

Adeiladu bioddeunyddiau newydd

Fel rhan o broject dichonoldeb a ariennir, mae'r Ganolfan Biogyfansoddion yn gweithio gyda chwmni Biotwin. Y nod yw datblygu elfennau adeiladu bio-seiliedig, carbon isel i farchnad y Deyrnas Unedig gan ddefnyddio deunyddiau planhigion dal a storio carbon cost isel ynghyd â glynwyr fformaldehyd isel o'r radd flaenaf i gynhyrchu siapiau a strwythurau cymhleth.

Nod: Gwneud Dinasoedd yn Gynhwysol, Diogel, Gwydn a Chynaliadwy

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Mae gan Ddeallusrwydd Artiffisial y potensial i chwyldroi defnydd ieithoedd lleiafrifol

Bydd arbenigwyr mewn meysydd o DA a thechnoleg ddigidol, ieithyddiaeth a chymdeithaseg ledled Ewrop cydgyfarfod mewn digwyddiad a drefnir gan Brifysgol Bangor yn fis Medi i drafod y chwyldro presennol a'r hyn sydd i ddod ym maes technolegau iaith a fydd yn effeithio ar ddefnydd iaith.

Gall Deallusrwydd Artiffisial (DA) ar fin newid pob agwedd o'n bywydau beunyddiol yn y pump i ddeng mlynedd nesaf- hyd yn oed y modd yr ydym yn defnyddio iaith. Mae sicrhau nad yw ieithoedd lleiafrifol yn cael eu hanwybyddu'n hanfodol ac yn bosib wrth i ddatblygiad Deallusrwydd Artiffisial gamu ymlaen. Gall DA chwyldroi defnydd ieithoedd lleiafrifol gan sicrhau eu defnydd a'u ffyniant yn y byd digidol yn ôl academydd ac ymchwilydd Brifysgol Bangor.

Prifysgol Bangor yn cydweithio i wella mentrau mannau gwyrdd

Mae Prifysgol Bangor a Chanolfan Ecoleg a Hydroleg y DU yn gweithio gyda Chyngor Sir Dinbych er mwyn helpu i lywio a gwella datblygiad mannau gwyrdd yn y Rhyl.

Bydd y partneriaid yn edrych ar farn y cyhoedd ynghylch newidiadau i fannau gwyrdd o amgylch yr ardal, a sut gall y wybodaeth hon lunio gwaith adfer natur yn y dyfodol. Yn rhan o'i Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol, mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu glaswelltiroedd blodau gwyllt trefol a choetir newydd yn y Rhyl ac ar draws y sir.

DYSGU A MYFYRWYR

Hyfforddi arweinwyr y dyfodol mewn rheolaeth gynaliadwy o gyrchfannau a busnesau twristiaeth

Mae Prifysgol Bangor wedi datblygu gradd newydd mewn Rheoli Twristiaeth i hyfforddi arweinwyr newydd i reoli cyrchfannau twristiaeth a busnesau mewn modd cynaliadwy. Cynlluniwyd y radd mewn ymgynghoriad â sefydliadau sydd yn ymwneud â'r diwydiant twristiaeth yng Ngogledd Cymru, wnaeth cael ei lansio yn Mai.

Oedd yn hanfodol sicrhau oedd y cwrs yn mynd i helpu myfyrwyr ac eraill sy'n ymwneud â'r sector twristiaeth i ddeall yr angen i gydbwyso anghenion economaidd a chymdeithasol-ddiwylliannol y cymunedau croeso, wrth gynnig profiadau cofiadwy i dwristiaid.

Wythnos Gwirfoddoli

Fis Chwefror neilltuodd Undeb y Myfyrwyr wythnos gyfan i wirfoddoli, er mwyn i bawb gael blas ar yr hyn y mae gwirfoddoli yng nghymuned Bangor yn ei olygu. Trwy gydol yr wythnos roedd amrywiaeth o ddigwyddiadau'n cysylltu myfyrwyr â phrojectau gwirfoddoli. Ymunasant â City to Sea, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a'r Gymdeithas Gadwraeth Forol i gyflwyno sgyrsiau rhyngweithiol, taith dywys a glanhau traethau gydag arolwg llygredd. Roedd y rheini'n berffaith i fyfyrwyr sydd â diddordeb brwd mewn cadwraeth neu'r amgylchedd ddysgu am gyfleoedd a chyfleoedd i wirfoddoli y tu allan i'r brifysgol.

Myfyrwyr yn Glanhau'r Traeth

GWEITHREDIADAU

Gardd Fotaneg Treborth yn dathlu llwyddiant achrediad rhyngwladol

Mae'r staff a'r gwirfoddolwyr yn dathlu carreg filltir bwysig yn hanes Gardd Fotaneg Treborth yn Ebrill. Daeth y newyddion i'r Ardd lwyddo yn ei chais i ddod yn Ardd Fotaneg Achrededig. Mae'n un o blith saith o Erddi Botaneg Achrededig yn y Deyrnas Unedig ac yn un o ddim ond tair yng Nghymru.

Mae Achrediad Rhyngwladol Cadwraeth y Gerddi Botaneg ar gyfer sefydliadau botanegol sy'n dymuno sefydlu eu rhinweddau ac mae cyflawni'r achrediad yn dangos bod yr Ardd yn cydymffurfio â'r safonau rhyngwladol uchaf fel gardd fotaneg. Caiff Gerddi Botaneg eu hasesu ar feini prawf sy'n cwmpasu arweinyddiaeth, arbenigedd garddwriaethol arbenigol, rheoli casgliadau, addysg gyhoeddus, gweithgareddau cymunedol a diwylliannol, gweithredoedd cadwraeth, ymchwil gwyddonol, staff, rhwydweithio a chynaliadwyedd.

Gardd Fotaneg Treborth

Cronfa Gymunedol Prifysgol Bangor

Yn 2023 gafodd Gronfa Gymunedol Prifysgol Bangor ei sefydlu fel rhan o'r Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig a gefnogir gan MEDR drwy Gronfa Ymchwil ac Arloesi Cymru.

Nôd y gronfa yw ysgogi gweithgareddau ymgysylltu dinesig rhwng staff y Brifysgol a phartneriaid allanol. Gall staff wneud cais am grantiau i wneud gweithgareddau ymgysylltu dinesig a fydd yn sbarduno cydweithrediadau newydd neu'n adeiladu ar gysylltiadau sydd eisoes yn bodoli gyda phartneriaid allanol.

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Staff BioGyfansoddion yn mynd i gyfarfod rhanddeiliaid yn Uganda

Aeth staff biogyfansoddion i gyfres o weithdai gyda ffermwyr, tyfwyr a gweithredwyr meithrinfeydd lleol yn rhanbarth Mt. Elgon yn Nwyrain Uganda ym mis Mawrth, i hyrwyddo manteision trosglwyddo o blastigau untro i ddewisiadau bioddiraddadwy amgen i becynnu a thyfu eginblanhigion coed.

Mae hyn wedi cynnwys sesiynau briffio ar faterion niwed amgylcheddol a achosir gan blastigau untro yn sector amaethgoedwigaeth yn Uganda. Aeth cyfanswm o 255 o bobl (108 o ferched, 147 o ddynion) i'r gweithdai hyn, ac roedd rhanddeiliaid yn cynnwys ffermwyr, gweithredwyr meithrinfeydd, arweinwyr cymunedol a chrefyddol lleol, cynrychiolwyr lleol/rhanbarthol o Lywodraeth Uganda a phlant ysgol.

Gragen Cregyn Gleision

Nod: Sicrhau Patrymau Defnyddio a Chynhyrchu Cynaliadwy

YMCHWIL

Gallai effaith treillio gwely'r môr ar yr hinsawdd fod wedi'i oramcangyfrif yn sylweddol – astudiaeth newydd

Mae pysgota treillio gwaelod y môr yn cyflenwi chwarter y glaniadau pysgod yn fyd-eang ac dyma'r ffordd fwyaf helaeth o bell ffordd y mae pobl yn tarfu ar wely'r môr.

Yn fyd-eang, mae 1.75 gwaith yn fwy o garbon yn cael ei storio yng ngwaddod gwely'r môr na'r holl bridd ar y tir. Gallai tarfu ar y carbon hwn gynyddu crynodiadau CO_2 yn y dŵr, ac mewn dyfroedd bas cymysg, lle mae tua hanner y gweithgaredd treillio wedi'i grynhoi, gellir rhyddhau'r CO_2 hwn i'r atmosffer. Er y gallai atal treillio gwaelod y môr rhag tarfu ar wely'r môr leihau'r allyriadau sy'n ysgogi newid yn yr hinsawdd, mae faint o CO_2 y byddai'n ei atal yn ansicr – ac mae'n debygol bod y rhagfynegiadau blaenorol wedi eu goramcangyfrif.

Deunydd newydd sy'n gwarchod cartrefi

Mae deunydd newydd arloesol, wedi'i wneud o gragen cregyn gleision, sy'n gwarchod cartrefi gam yn nes at fod ar gael ar y farchnad, diolch i gydweithio rhwng cwmni cynnyrch cynaliadwy Pennotec (Pennog Ltd) a gwyddonwyr ymchwil deunyddiau yng Nghanolfan Biogyfansoddion Prifysgol Bangor, gyda chefnogaeth cyllid UKRI.

Trwy eu hymchwil, darganfu Pennotec fod gan gragen cregyn gleision y gallu i rwymo a rhyddhau copr. Mae rhyddhau copr yn raddol o ddeunydd cyfansawdd cregyn gleision Pennotec yn atal twf algâu gwyrdd sy'n achosi staen hyll ar arwynebau adeiladau. Bydd y cynnyrch hefyd yn atal twf mwsogl ar doeau a llysnafedd ar arwynebau gwlyb, gan leihau cost cynnal a chadw cartrefi yn aruthrol.

DYSGU A MYFYRWYR

Myfyrwyr yn creu cynnyrch gan ddefnyddio gwlân cynaliadwy o Gymru

Derbyniodd myfyrwyr Dylunio Cynnyrch ym Mhrifysgol Bangor her gan y project 'Gwnaed â gwlân', a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, i greu cynnyrch arloesol gan ddefnyddio gwlân o Gymru. Atebodd y myfyrwyr yr her drwy gynhyrchu gwarchodwyr mwd beiciau mynydd, esgyll bwrdd syrffio a phowlen ffrwythau, ymhlith pethau eraill.

Mae Gwnaed â Gwlân yn broject Cymru gyfan ac mae'n dod â rhwydwaith eang o randdeiliaid ynghyd sy'n cynrychioli pob rhan o'r gadwyn cyflenwi gwlân. Nod y project yw gwireddu potensial gwlân fel deunydd naturiol, cynaliadwy ac amlbwrpas a heriwyd y myfyriwr i gynhyrchu naill ai cynnyrch newydd neu i ystyried defnyddio gwlân yn lle deunydd sy'n bodoli eisoes.

Powlen wedi cael ei wneud allan o resin a'i ddyluniwyd gan Leanne Melia

Wythnos Am Wastraff



Wythnos am Wastraff 2022

GWEITHREDIADAU

Data Gwastraff

Yn 2022/23 llwyddodd Prifysgol Bangor i ddargyfeirio 100% o'i gwastraff. O'r gwastraff na chafodd ei yrru i safle tirlenwi cafodd 55.18% ei ailgylchu a 44.82% ei adfer. Cynhyrchwyd 724.1 tunnell o wastraff i gyd, gostyngiad o 8.09% ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r Brifysgol yn codi ymwybyddiaeth ymhlith staff, myfyrwyr ac ymwelwyr trwy lawer o raglenni gwastraff.



Data Gwastraff 2022/23 Prifysgol Bangor

Bydd project Transship II gwerth £5.5m yn gweld llong ymchwil fawr yn y Deyrnas Unedig yn cael ei phweru gan hydrogen

Disgwylir i unig long ymchwil o fewn addysg uwch yn y Deyrnas Unedig, y Prince Madog, leihau ei hallyriadau hyd at 60% diolch i fenter ynni hydrogen arloesol gwerth £5.5 miliwn a allai helpu i ail-lunio dyfodol llongau.

Project Transship II yw'r project ôl-osod mwyaf o'i fath hyd yma a bydd yn gweld y Prince Madog yn cael ei ôl-osod gyda system gyriant hybrid trydan hydrogen a fydd yn galluogi gweithrediad allyriadau sero i isel erbyn 2025.

Yn ddiweddar, dathlodd y Prince Madog, sy'n eiddo ar y cyd gan Brifysgol Bangor yng Nghymru, 20 mlynedd o wasanaeth i addysg a gwyddoniaeth. Mae'r llong ymchwil wedi newid y ffordd yr ydym yn deall gwyddorau môr ac arfordirol a dyma'r unig un o'i bath yn y Deyrnas Unedig ac un o'r rhai mwyaf yn Ewrop.

YMCHWIL

Llynnoedd y byd yn cynhesu’n ormodol

Mae gan dros hanner y 117 miliwn o lynnoedd y byd orchudd rhew am ran o'r flwyddyn. Ond gyda'r cynnydd mewn tymheredd byd-eang, mae amseriad ffurfio a cholli rhew tymhorol yn newid yn gyflym. Ers 1979, mae amseriad cyfartalog pan fo rhew'r llynnoedd yn dadmer ar draws Hemisffer y Gogledd yn digwydd 8 diwrnod ynghynt. Mae'r ffaith bod hon yn digwydd 8 diwrnod ynghynt wedi arwain at lynnoedd yn cynhesu’n ormodol gyda goblygiadau niferus i ecosystemau llynnoedd.

Mae papur newydd gan Brifysgol Bangor a Phrifysgol Peking wedi canolbwyntio ar lynnoedd Hemisffer y Gogledd, gan ddefnyddio delweddau lloeren i astudio bron i fil o lynnoedd a modelu dros 100,000 i gyfrifo effeithiau’r cynnydd mewn diwrnodau heb rew ar dymheredd y dŵr. Maent hefyd yn awgrymu sut y gall newid proffiliau tymheredd llynnoedd effeithio â'r planhigion a'r anifeiliaid sy'n byw o fewn amgylcheddau'r llynnoedd.

Arolwg yn datgelu effeithiau niweidiol canfyddedig newid hinsawdd

Mae arolwg cyhoeddus cenedlaethol a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a’r Brifysgol wedi datgelu bod dros dri chwarter o drigolion Cymru yn credu y bydd newid hinsawdd yn niweidio iechyd meddwl ac yn cynyddu costau gwresogi a phrynu bwyd.

Nod: Gweithredu ar Frys i Frwydro yn Erbyn Newid yn yr Hinsawdd a'i Effeithiau

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Digwyddiad estyn allan: Cysylltu cestyll a’r môr, pobl a’r wyddor

Mae’r Project Clicher a ariennir gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol yn ymdrin â sut y gall treftadaeth ddiwylliannol, a’r gwerth a roddwn arni, helpu i lywio dealltwriaeth well o’r hinsawdd sy’n newid a’r risg sy’n codi o ran lleoliad ein hasedau diwylliannol sydd ar neu’n agos at arfordir gogledd Cymru. Wnaeth gweithdy rhyngweithiol yn Fawrth cynnwys pobl leol, ymarferwyr, llunwyr polisi ac academyddion i ddysgu mwy am ein tir a’n glannau arfordirol a threftadaeth i geisio cyd-greu pecyn cymorth ymarferol ar sut i ymgysylltu gwahanol gymunedau gyda gwyddorau’r hinsawdd a'r bygythiad i dreftadaeth ddiwylliannol.

Ymchwilwyr Prifysgol Bangor ar Flaen y Gad wrth Fynd i'r Afael â Newid Hinsawdd

Mae cyfres newydd o astudiaethau achos yn rhoi sylw i brojectau Prifysgol Bangor sy'n mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r hinsawdd trwy ymchwil ar y cyd yn Affrica. Ar y cyd â Phrifysgol Antananarivo, Madagascar, maent yn gweithio gyda chymunedau lleol i sicrhau nad yw cadwraeth coedwigoedd yn niweidio bywoliaeth leol. Yn Uganda, mae cydweithio â Sefydliad Ymchwil Amaethyddol Cenedlaethol Uganda yn datblygu cynhyrchion i ddisodli nwyddau plastig untro gan ddefnyddio'r deunydd gwastraff a geir o dyfu india-corn. Yn Togo, efo Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Tatws Togo maent yn arbrofi gyda mathau o datws cnwd dwys sy’n gwrthsefyll clefydau, ac yn Nigeria, gyda Phrifysgol Jos maent yn helpu sefydliadau cadwraeth a chymunedau lleol i gynllunio ar gyfer y patrymau tywydd cyfnewidiol a ragwelir o achos newid hinsawdd.

DYSGU A MYFYRWYR

Myfyriwr Bangor yn mentro i’r Arctig

Mae George Reese, sy’n fyfyriwr ym Mhrifysgol Bangor wedi cael ei ddewis i ymgymryd ag un o heriau mwyaf uchelgeisiol y byd, a her nad oes neb erioed wedi llwyddo i’w chyflawni o’r blaen, sef cyrraedd Pegwn Anhygyrch y Gogledd.

Mae George yn astudio Bioleg Môr a Swoleg ac mae wedi cael ei ddewis gan Jim McNeill, y fforiwr byd enwog, i gymryd rhan yn un o alldeithiau pegynol pwysicaf a mwyaf uchelgeisiol ein hoes. Bwriad yr alldaith yw bod y cyntaf i gyrraedd Pegwn Anhygyrch y Gogledd, gan gasglu data hanfodol am newid hinsawdd ar hyd y daith.

Nid yn unig y mae’r alldaith hon yn ymgais i osod record byd, ond bydd hefyd yn casglu setiau data hanfodol i feincnodi cyflwr y cefnfor. Bydd y data’n cael ei ddefnyddio gan wyddonwyr y National Snow and Ice Data Center (NSIDC) a ariennir gan NASA, ac sydd dan arweiniad y gwyddonydd Walt Meier, sydd yn enillydd Gwobr Nobel. Bydd y setiau data hyn, ynghyd â data am y tywydd, llygredd a nifer yr eirth a welir, yn adlewyrchu realiti newid hinsawdd ac yn gwneud yr holl ymdrech yn werthfawr a phwrpasol.

Astudio

Mae'r modiwl Bywyd mewn Hinsawdd sy'n Newid yn ymdrin â sut mae newid hinsawdd ac agweddau ar swoleg a bioamrywiaeth yn gysylltiedig ac yn rhyngweithio. Mae’n cynnwys y polisi cenedlaethol a rhyngwladol, ynghyd ag arferion cadwraeth a rheoli posibl sydd eu hangen i ymdopi â hinsawdd sy'n newid.

GWEITHREDIADAU

Lansiad '25 erbyn 25' – ymgyrch gynaliadwyedd newydd

Nod yr ymgyrch '25 erbyn 25' yw i lleihau 25% o allyriadau erbyn 2025, er mwyn cyflawni hyn bydd y Brifysgol yn edrych ar sut mae'n defnyddio pob math o ynni a thanwydd, y gwastraff rydym yn ei daflu, y dŵr rydym yn ei ddefnyddio a bron unrhyw beth a phopeth sy'n creu allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Cychwynnodd gweithgareddau 25 erbyn 25 gyda gwahoddiad agored i bob cydweithiwr a myfyriwr i gynnig eu syniadau ar sut i gefnogi'r ymgyrch hon, a rhannu syniadau a barn ynglŷn â sut y gall y Brifysgol leihau ôl troed carbon o fewn ein meysydd targed allweddol, sef Ynni, Gwastraff a Theithio. Wnaeth y logo 25 erbyn 25 ymddangos ar draws ein campws ar ffurf 'graffiti glân' wnaeth ennyn diddordeb yn yr ymgyrch.

Graffiti glân 25 erbyn 25

Rheoli Carbon

Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23 gostyngodd allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2 y Brifysgol ychydig i 6,749.20 tunnell CO2e, o’i gymharu â 9,491.9 tunnell CO2e yn 2018/19 yn seiliedig ar gyfrifiadau trydan yn ôl y lleoliad. Wnaeth cymhariaeth o weithgareddau Cwmpas 1 a 2 rhwng 2021/22 a 2022/23 dangos gostyngiad bach mewn nwy naturiol oherwydd newidiadau amrywiol yn y defnydd o adeiladau. Er gwaethaf gostyngiad yn y defnydd o drydan, cynyddodd ffactorau allyriadau’r Deyrnas Unedig allyriadau carbon o gymharu â’r llynedd.

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Sut y gall y DU wrthdroi ei gostyngiad mewn bioamrywiaeth

I ddathlu Diwrnod Gwlyptiroedd y Byd (2 Chwefror) wnaeth Craig Bennett, Prif Swyddog Gweithredol The Wildlife Trusts wneud darlith gyhoeddus ym Mhrifysgol Bangor ar ddyfodol cadwraeth natur yn y Deyrnas Unedig a'r hyn y mae angen ei wneud i gyrraedd y targedau bioamrywiaeth.

Defnyddio robotiaid crwydrol i ddeall y môr yn well

Mae'r Athro Stephanie Waterman o Brifysgol British Columbia, Canada yn gweithio ar flaen y gad mewn maes robotig newydd, ac yn defnyddio robotiaid o bell i arsylwi'r môr. Wnaeth yr Athro Waterman ymweld â Phrifysgol Bangor yn Fehefin i draddodi darlith gyhoeddus ar ddefnyddio robotiaid crwydrol i ddeall y môr yn well.

Mae'r môr yn parhau i fod yn ddirgelwch, ac mor estron i ni â'r gofod allanol er ei fod wedi cydblethu â holl fywyd y ddaear, ac yn chwarae rhan ganolog yn y broses o reoleiddio'r hinsawdd a chynhyrchu bwyd. Ond mae'r chwyldro robotiaid yn gyfnod newydd o arsylwi'r môr, gyda'r potensial i chwyldroi ein dealltwriaeth o weithrediad môr.

Nod: Diogelu a Defnyddio'r Cefnforoedd, y Moroedd ac Adnoddau'r Môr yn Gynaliadwy ar gyfer Datblygu Cynaliadwy

YMCHWIL

Prosiect cadwraeth yn dod o hyd i filoedd o anifeiliaid sy'n byw ochr yn ochr â'u meithrinfeydd wystrys arloesol

Mae'r Prosiect Wystrys Gwyllt yn dathlu llwyddiant i fywyd gwyllt yn ystod Diwrnod Wystrys y Byd ar ôl canfod dros 27,000 o anifeiliaid morol sy'n byw ymysg eu meithrinfeydd wystrys brodorol – sy'n dangos bod y prosiect adfer yn helpu mwy na dim ond wystrys.

Yn y safle cadwraeth yn Afon Conwy, a darparwyd gan Ysgol Gwyddorau Eigion Prifysgol Bangor, gwelodd dros 40 o rywogaethau anhygoel fel cranc heglog hirbig, llyfrothod, pibellau môr lleiaf – perthynas agos â'r morfeirch, sef llyfrothod penddu, berdys symudliw yn byw ymysg y wystrys brodorol.

Prosiect i gofnodi effaith sŵn ar famaliaid morol

Gan weithio mewn partneriaeth, mae Prifysgol Bangor, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chanolfan Gwyddor yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu wedi gosod offer recordio arbenigol mewn tri lleoliad yn Ardal Cadwraeth Arbennig Gogledd Ynys Môn i ganfod a yw sŵn dynol a sŵn naturiol yn effeithio ar famaliaid morol, i helpu i fynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd.

DYSGU A MYFYRWYR

Ysgol Gwyddorau Eigion

Un o'r adrannau gwyddor môr fwyaf yn Ewrop, mae’r Ysgol Gwyddorau Eigion Prifysgol Bangor yn adran gwyddor môr amlddisgyblaethol wedi ein lleoli ar lannau'r Fenai yng ngogledd Cymru.

Mae gan yr Ysgol gyfleusterau cefnogi rhagorol. Maent yn cynnwys labordai addysgu ac ymchwil â chyfarpar da, longau bychain ymchwil, long ymchwil morwrol 35 metr, weithdai trydanol a mecanyddol mewnol sy'n gallu dylunio ac adeiladu offer eigioneg o'r radd flaenaf, a chyflenwad dŵr môr wedi'i hidlo yn uniongyrchol o’r Fenai, i acwaria môr dŵr oer a throfannol.

Mae ein hacademyddion a'n myfyrwyr yn cymryd rhan mewn projectau ymchwil ar draws y byd. Mae eu darganfyddiadau yn helpu i lunio polisïau'r llywodraeth ac yn newid yr union ffordd rydyn ni'n meddwl am bynciau pwysicaf y dydd.

Astudio

Yr MSc Ecoleg Ysglyfaethwyr Uchaf y Môr yn astudio modiwlau arbenigol, a fydd yn eich cyflwyno i sgiliau maes a sgiliau meintiol wrth astudio prif ysglyfaethwyr y môr ac ymchwil eigionegol, a phynciau mwy astrus ym maes ecoleg feintiol generig y môr.

Mae’r MSc Gwarchod Amgylchedd y Môr yn rhoi sgiliau maes a thechnegau i fyfyrwyr sydd eu hangen i weithredu yn amgylchedd y môr, sgiliau meintiol i asesu adnoddau a rhagfynegi bygythiadau, dealltwriaeth realistig o lywodraethu a masnach y môr; a sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol i gydweithio i ddod â'u canfyddiadau gerbron y rhai sy'n gwneud penderfyniadau fel bod datblygu yn y dyfodol yn gynaliadwy.

Gall israddedigion astudio Gwyddorau Eigion, Eigioneg Ddaearegol, Bioleg y Môr, Gwyddor Môr a Chadwraeth a mwy.

GWEITHREDIADAU

Safonau Cadwraeth Dŵr

Amcanion y Safonau Cadwraeth Dŵr (Y Safonau) yw hyrwyddo a gweithredu arferion rheoli dŵr cynaliadwy sy'n lleihau defnydd dŵr ac yn annog defnydd cyfrifol ar ddŵr ar gampws y Brifysgol.

Rhai o swyddogaethau'r Safonau yw galluogi’r Brifysgol helpu diogelu cefnau deuddŵr lleol ac ecosystemau a bioamrywiaeth ddaearol a morol, a helpu diogelu iechyd y cyhoedd a sicrhau safonau glanweithdra ac arllwysiad.

Fyddwn yn cynnal archwiliadau ac asesiadau dŵr, gwerthuso’r trefniadau cyfredol i reoli dŵr storm a cheisio gwelliannau parhaus i sicrhau bod ein hecosystemau dyfrol lleol yn cael eu cynnal a'u cefnogi.

Polisi Bwyd Cynaliadwy

Mae ein Gwasanaeth Arlwyo mewnol yn cydnabod pwysigrwydd gynnwys bwyd iach a chynaliadwy i'n myfyrwyr, staff ac ymwelwyr.

Rhai o amcanion ein Polisi Bwyd Cynaliadwy yw caffael bwyd gan gyflenwyr sy'n gweithredu'n rhagweithiol mewn ffordd gynaliadwy, sicrhau bod cynnyrch tymhorol a lleol ar gael ar ein bwydlenni, cynyddu opsiynau llysieuol a fegan ar fwydlenni, trefnu bod pysgod o restr 'pysgod i'w bwyta’ yr MCS ar gael a pheidio byth â gweini pysgod o'r rhestr 'pysgod i'w hosgoi’, ac ailgylchu ym mhob man arlwyo yn unol ag arfer gorau.

Y Llong Ymchwil Prince Madog

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Diogelu ac adfywio mangrofau trofannol

Ar un adeg roedd mangrofau yn cael eu gweld fel corsydd digroeso llawn malaria, ac roedden nhw ymhlith y cynefinoedd a oedd yn diflannu cyflymaf yn y byd. Nawr, gyda mewnbwn gan Brifysgol Bangor, mae un project cymunedol yn Kenya yn gweithio i adfer mangrofau mewn project sydd o fudd i gymunedau lleol. Diolch i fuddsoddiad a phrojectau fel Mikoko Pamoja, mae sefydliadau'n talu am blannu a chadwraeth mangrofau, er mwyn gwrthbwyso eu carbon. Mae hyn nid yn unig yn helpu'r mangrofau; mae'n helpu cymunedau lleol i ffynnu.

At Eich Coed / Tree Sense

AT EICH COED oedd arddangosfa amlddisgyblaethol a gydlynwyd gan Brifysgol Bangor rhwng mis Mawrth a mis Mai efo amrywiaeth o osodiadau creadigol, gweithdai, sgyrsiau a pherfformiadau. Wnaeth yr arddangosfa gwahodd ymwelwyr i ystyried coed, megis eu ffurf a'u hamrywiaeth, manteision iechyd coed, eu cyfraniad at ymdeimlad o le, sut y gallent liniaru newid hinsawdd, effeithiau newid hinsawdd arnynt, a sut mae pobl wedi defnyddio coed drwy gydol ein hanes.

Nod: Amddiffyn, Adfer a Hyrwyddo Defnydd Cynaliadwy o Ecosystemau Daearol, Rheoli Coedwigoedd yn Gynaliadwy, Brwydro yn erbyn Diffeithdiro, Atal a Gwrthdroi Diraddio Tir, ac Atal Colli Bioamrywiaeth

YMCHWIL

Mae technoleg glyfar yn cynorthwyo ymchwil i gytref adar y môr o bwys cenedlaethol

Mae gwyddonwyr y Deyrnas Unedig yn cyflwyno technoleg amrywiol i ddeall a fydd rhywogaeth o adar môr carismatig yn ffynnu ynteu'n dioddef yn sgil y newid yn yr hinsawdd a thywydd eithafol y dyfodol. Mae'r ymchwil, sy'n cael ei arwain gan wyddonwyr o Brifysgol Bangor, yn canolbwyntio ar gytref o bwys cenedlaethol o fulfrain gwyrdd Ewropeaidd (Gulosus aristotelis) ar Ynys Seiriol, ger Môn. Bu niferoedd y mulfrain gwyrdd Ewropeaidd yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, ac maent ar y rhestr goch o adar sydd o dan y bygythiad mwyaf o ddifodiant yn y Deyrnas Unedig.

Fulfrain Ewropeaidd

Defnyddio echdynion afalau i wneud rhai o hoff fwydydd y genedl yn iachach, heb gyfaddawdu o ran blas

Mae Prifysgol Bangor yn cydweithio gyda Pennotec o Bwllheli, a'r pobydd The Pudding Compartment, Fflint gan ddefnyddio sgil-gynnyrch a allai gael ei daflu fel arall, sef 'pomace' afal yn yr achos hwn - y gweddillion solet sy'n weddill ar ôl gweithgynhyrchu sudd afal, yn rhywbeth hynod ddefnyddiol.

DYSGU A MYFYRWYR

Hamza, cyn-fyfyriwr ac enillydd Strictly yn dychwelyd i Fangor

Dychwelodd cyn-fyfyriwr, deiliad gradd er anrhydedd, ac enillydd Strictly Come Dancing, Hamza Yassin i Brifysgol Bangor fis Mawrth i roi cyflwyniad i fyfyrwyr Ysgol y Gwyddorau Naturiol. Yn 'Life behind the Lens' - bu'n sôn am sut y daeth yn ffotograffydd bywyd gwyllt ac yn wneuthurwr ffilmiau.

Dyn camera, ffotograffydd, cyflwynydd teledu a chadwraethwr bywyd gwyllt yw Hamza. Cafodd ei eni yn Sudan a'i fagu yn yr Alban. Mae wedi gwneud enw iddo'i hun yn y diwydiant gwneud ffilmiau, sy'n faes gystadleuol. Yr hyn a'i helpodd i wneud ei farc fel dyn camera bywyd gwyllt oedd ei ymroddiad a'i sgil wrth dynnu lluniau anhygoel o fywyd gwyllt yn yr Alban a Chymru. Ond sylweddolwyd yn gyflym iawn hefyd mor ddawnus ydyw o flaen y camera - ac i genhedlaeth o blant ifanc, ef yw Ranger Hamza ar CBEEBIES!

Yn ystod y ddwy flynedd a hanner diwethaf, mae Hamza wedi bod yn gweithio ar y gyfres BBC newydd Syr David Attenborough -Wild Isles. Ym mhennod neithiwr, ymddangosodd Hamza yn y darn 'On location' y rhaglen, lle'r oedd yn crwydro drwy Ucheldiroedd yr Alban yn chwilio am Eryrod Euraid.

Ysgol Gwyddorau Amgylcheddol a Naturiol

Mae'r Ysgol Gwyddorau Amgylcheddol a Naturiol Bangor yn cynnig amrywiaeth o raglenni gradd ar bynciau sy'n ymwneud ag Amaethyddiaeth, Bioleg, Cadwraeth, Gwyddor yr Amgylchedd, Daearyddiaeth, Coedwigaeth a Sŵoleg. Mae meysydd ymchwil yn rhychwantu ystod helaeth o wyddorau amgylcheddol a biolegol, o fioleg foleciwlaidd at brosesau ecosystemau a phopeth rhwng y ddau begwn. Mae'r cyfleusterau'n yn cynnwys Canolfan Ymchwil Henfaes a'r Gardd Fotaneg Treborth.

GWEITHREDIADAU

Polisi Bioamrywiaeth

Mae Prifysgol Bangor yn cydnabod y rôl hollbwysig y mae bioamrywiaeth yn ei chwarae wrth gynnal iechyd a gwytnwch ecosystemau, a'r buddion y mae'n eu darparu i'w myfyrwyr a'i staff, yn ogystal ag i'r gymuned leol a'r gymdeithas ehangach.

Mae ein Polisi Bioamrywiaeth yn cynnwys nifer o amcanion fel, amddiffyn a gwella bioamrywiaeth ar ystâd y Brifysgol, sicrhau cadwraeth, adfer a defnydd cynaliadwy o ecosystemau daearol sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol, a rheoli a gwella mannau gwyrdd presennol ar y campws, a lle bo'n ymarferol, creu cynefinoedd newydd sy'n bwysig i hyrwyddo bioamrywiaeth. Fyddwn yn creu Cynllun Gwella Bioamrywiaeth, a chefnogi'r fenter bioamrywiaeth, 30 erbyn 30 mewn 30, sy'n anelu at greu 30 o leoliadau newydd i gefnogi bywyd gwyllt yn well ar draws ystâd y Brifysgol erbyn 2030.

Canolfan Ymchwil Henfaes

Canolfan Ymchwil Henfaes yw cyfleuster yn perthyn i'r Brifysgol yn ymestyn dros 252 hectar, tua 7 milltir o Fangor. Mae'n darparu cyfleusterau ar gyfer ymchwil ac addysgu mewn amaethyddiaeth iseldir (cnydau âr, pori da byw ac ati), coedwigaeth, hydroleg, gwyddor amgylcheddol a chadwraeth; ac mae ganddi hefyd forlin helaeth ar gyfer astudio prosesau morfa heli arfordirol.
Mae ein cyfleuster maes ucheldir, y Ganolfan Rheoli Bryniau ac Ucheldir, yn cwmpasu 203 hectar ac yn cael ei reoli fel uned ddefaid masnachol.

Mae Henfaes yn cynrychioli un o safleoedd platfform dwysáu cynaliadwy allweddol (SIP) Defra. Maent yn archwilio'r potensial i gynyddu cynhyrchiant da byw a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr hefyd. Mae hefyd yn Ganolfan Arloesi LEAF, ac yn Safle Arloesi ar gyfer Rhaglen Cyswllt Ffermio Llywodraeth Cymru.

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Rhoi llais i'ch ymchwil yn y senedd

Bydd darlith gyhoeddus ym mis Mehefin rhoi dealltwriaeth i gyfranogwyr o'r berthynas gymhleth rhwng ymchwilwyr a gwleidyddion, trosolwg o sut mae polisïau a chyfreithiau yn cael eu gwneud yng Nghymru, sut i drafod y ddau fyd polisi ac ymchwil, awgrymiadau a chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r Senedd, ac astudiaeth achos.

Gwneuthurwyr polisi gwledig yn ael eu hannog i 'lywodraethu fel coedwig' ym Mhrydain ôl-Brexit

Yn eu cyfraniad i lyfr newydd pwysig mynediad agored, Rural Governance in the UK: Towards a Sustainable and Equitable Society, mae tîm o Brifysgol Bangor, fodd bynnag, wedi tynnu sylw at y risg na fydd coetiroedd un pwrpas 'dal carbon' o bosibl yn bodloni'r amrywiaeth o anghenion fydd yn wynebu cymdeithas yn y dyfodol. Mae'r llyfr yn rhoi golwg gynhwysfawr ac amlddisgyblaethol o lywodraethu gwledig a chymdeithas yn y Deyrnas Unedig ar ôl Brexit. Mae'n ymdrin nid yn unig â pholisi coedwigoedd, ond hefyd digideiddio gwledig, rheoli tir amaethyddol ac amgylcheddol, entrepreneuriaeth gymdeithasol wledig, ac ynni.

Nod: Hyrwyddo cymdeithasau heddychlon a chynhwysol ar gyfer datblygu cynaliadwy, darparu mynediad at gyfiawnder i bawb ac adeiladu sefydliadau effeithiol, atebol a chynhwysol ar bob lefel

YMCHWIL

Trethi ar economïau ymwelwyr – sut mae Cymru yn cymharu â mannau eraill?

Mewn adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Bangor wedi bod yn dadansoddi trethi ar economïau ymwelwyr ac yn cymharu'r sefyllfa yng Nghymru â mannau eraill. Defnyddir y dadansoddiad fel tystiolaeth yn yr ymgynghoriad ar yr ardoll dwristiaeth yng Nghymru, dadansoddi mai Denmarc, Sweden, yr Iseldiroedd, Norwy a Ffrainc sydd â sector twristiaeth sydd fwyaf tebyg i sector twristiaeth Cymru. O ddewis y rhain fel 'cymaryddion', mae wedi dod i'r amlwg y byddai'n amgenach cymharu sector twristiaeth Cymru, yn economaidd, â'r pum gwlad hyn yn hytrach na'r sector cyfagos yn Lloegr, yr Alban ac Iwerddon.

Addysgu a dysgu yn yr awyr agored: cyflwr presennol dysgu yn yr awyr agored mewn ysgolion yng Nghymru

Cynhaliwyd y prosiect hwn gan ddau academaidd Bangor fel rhan o'r Rhwydwaith Tystiolaeth Gydweithredol. Mae'r canfyddiadau wedi'u hanelu at lunwyr polisi ac Awdurdodau Lleol, a all gefnogi ysgolion ac ymarferwyr i ddatblygu polisi, arweiniad, adnoddau a datblygiad proffesiynol dysgu awyr agored ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru.

DYSGU A MYFYRWYR

Carfan gyntaf o swyddogion PEQF yn graddio o Brifysgol Bangor

Graddiodd y cohort cyntaf o fyfyrwyr PEQF Heddlu Gogledd Cymru gyda chymhwyster plismona proffesiynol o Brifysgol Bangor yn Gorffennaf.

Wedi'i lansio yn 2020, mae'r cydweithrediad rhwng HGC a'r brifysgol wedi caniatáu i newydd ddyfodiaid gyfuno dysgu academaidd gyda dysgu yn y gwaith. Mae'r cynllun llwybr deuol yn cydnabod yn ffurfiol y sgiliau a welir gan weithwyr proffesiynol yr heddlu heddiw a'r galwadau a osodir arnynt gan amgylchfyd gweithio cynyddol gymhleth.

Myfyrwyr Bangor yn cydweithio'n lleol ac yn rhyngwladol ar brosiect grymuso ieuenctid

Mae myfyrwyr o Brifysgol Bangor wedi cydweithio â phartneriaid o bob cwr o Ewrop i ddatblygu cwrs gwe o arferion gwaith ieuenctid llwyddiannus, yn y gobaith o sicrhau bod rhaglenni ieuenctid y dyfodol yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i hyder a dyheadau pobl ifanc.

Nod prosiect Erasmus EMPYRE (‘Empowering youth – successful youth work practices in Europe) yw mapio, gwerthuso a datblygu arferion gwaith ieuenctid llwyddiannus, yn enwedig ym maes grymuso cymdeithasol a chyflogadwyedd ieuenctid.

Bu myfyrwyr o’r Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas Prifysgol Bangor yn cydweithio â myfyrwyr o sefydliadau yng Ngwlad Pwyl, y Ffindir ac Awstria ar y prosiect, arweiniodd at greu cwrs gwe ‘grymuso ieuenctid’. Bydd y cwrs ar gael i fyfyrwyr a phobl sy’n gweithio mewn sefydliadau ieuenctid ar draws Ewrop, ac yn archwilio elfennau allweddol o waith ieuenctid llwyddiannus ac enghreifftiau ymarferol o arfer da.

GWEITHREDIADAU

Mesurau Llywodraethu

Y Cyngor yw corff llywodraethu pennaf y Brifysgol fel y nodir yn Siarter y Brifysgol ac mae'n gyfrifol am weithredu pwerau'r Brifysgol.

Mae swyddogaethau'r Cyngor yn cynnwys, gofalu am y Sêl Gyffredin a'r defnydd ohoni, goruchwylio rheolaeth a gweinyddu refeniw ac eiddo'r Brifysgol a goruchwylio'r ffordd y rheolir y Brifysgol. Mae aelodaeth y Cyngor wedi'i nodi yn y Siarter ac mae'n cynnwys aelodau annibynnol, aelodau’r Bwrdd Gweithredu, aelodau a enwebir gan y staff academaidd ac anacademaidd, a swyddogion etholedig o Undeb y Myfyrwyr.

Y Llys yw grŵp rhanddeiliaid Prifysgol Bangor, ac mae'n darparu fforwm i aelodau'r gymuned ryngweithio â'r brifysgol. Mae’r Llys yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn ac yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, aelodau Seneddol ac aelodau’r Senedd, y bwrdd iechyd lleol, cynrychiolwyr cyn-fyfyrwyr, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae Bwrdd Cymunedol wedi bodoli ers blynyddoedd lawer i gysylltu’r â’n cymunedau lleol.

Undeb y Myfyrwyr

Undeb Myfyrwyr yw llais y Myfyrwyr a chartref bywyd myfyrwyr ym Mangor, yn cael ei arwain gan gynrychiolwyr myfyrwyr etholedig sy'n gweithio i gyfoethogi a gwella y profiad myfyriwr.

Mae Swyddogion Sabothol ymroddedig yn gweithio i sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei glywed a bod y math o weithgareddau sydd ei angen yn cael ei datblygu. Cefnogir gan dîm o staff proffesiynol, maent yn rhedeg y Clybiau Chwaraeon, Cymdeithasau, Projectau Gwirfoddoli, UMCB (Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor), Cynrychiolwyr Cwrs ac ein Rhwydweithiau a Fforwm Myfyrwyr.

YMCHWIL

Achub reis hynafol i'w dyfu yn Nepal

Mae arbenigwr o Brifysgol Bangor sydd wedi helpu i ddiogelu cyfenwad bwyd dros bum miliwn o dyddynwyr a'u teuluoedd yn India, Pacistan a Nepal dros y blynyddoedd, bellach wedi bod yn rhan o ymdrechion i ddatblygu math o reis y gellir ei dyfu ar lwyfandir Nepal.

Gweithio gyda'r Rhaglen Ymchwil Reis Cenedlaethol yn Nepal, ffermwyr a defnyddwyr lleol, mae'r ffermwyr yn profi'r mathau newydd o reis trwy eu tyfu ar eu tir. Mae'r dull hwn o dyfu planhigion yn sicrhau fod rhywogaethau newydd wedi eu haddasu'n dda i ofynion a dymuniadau ffermwyr lleol, ac yn ei dro yn golygu bod y gymuned ffermio'n fwy tebygol o'u mabwysiadu a'u lledaenu.

Ymchwil Prifysgol Bangor yn cynorthwyo rhybudd diogelwch yr RNLI

Ymunodd yr RNLI â Phrifysgol Bangor y llynedd i fod yn rhan o broject i ddeall gwybodaeth pobl am y llanw. Mae ymchwilwyr wedi bod yn siarad â phobl sydd wedi cael eu dal gan y llanw i edrych ar rai o'r rhesymau pam eu bod yn mynd i drafferthion. Mae'r elusen yn galw ar bobl i fod yn arbennig o ofalus os ydynt yn ymweld â'r arfordir dros benwythnos y Pasg yn wyneb yr ystadegyn bod 15% o boblogaeth y DU wedi dweud eu bod wedi cael eu dal gan y llanw.

Nod: Cryfhau'r dulliau gweithredu ac adfywio'r bartneriaeth fyd-eang ar gyfer datblygu cynaliadwy

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Cydnabod project gwlyptir Prifysgol Bangor mewn gwobrau cenedlaethol

Mae project gan staff a myfyrwyr Prifysgol Bangor i greu gwlyptir wedi ennill clod mawr mewn seremoni wobrwyo amgylcheddol fawr. Fydd Canolfan Gwlyptir Caer yn arwain at greu ecosystemau gwlyptir gwerthfawr mewn parc gwledig poblogaidd ar gyrion Caer.

Yn ogystal â'r Land Trust, Friends of the Countess of Chester Country Park, Binnies a Phrifysgol Bangor, rhai o brif bartneriaid eraill y project yw Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Gorllewin Sir Gaer a Chaer a'r Gwirfoddolwyr Cadwraeth.

Cyfres newydd o astudiaethau achos yn rhoi sylw i brojectau sy'n mynd i'r afael â materion hinsawdd trwy ymchwil ar y cyd

Mae cyfres newydd o astudiaethau achos yn rhoi sylw i brojectau Prifysgol Bangor sy'n mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r hinsawdd trwy ymchwil ar y cyd yn Affrica. Ar y cyd â Phrifysgol Antananarivo, Madagascar, maent yn gweithio gyda chymunedau lleol i sicrhau nad yw cadwraeth coedwigoedd yn niweidio bywoliaeth leol. Yn Uganda, mae cydweithio â Sefydliad Ymchwil Amaethyddol Cenedlaethol Uganda yn datblygu cynhyrchion i ddisodli nwyddau plastig untro gan ddefnyddio'r deunydd gwastraff a geir o dyfu india-corn. Yn Togo, efo Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Tatws Togo maent yn arbrofi gyda mathau o datws cnwd dwys sy'n gwrthsefyll clefydau, ac yn Nigeria, gyda Phrifysgol Jos maent yn helpu sefydliadau cadwraeth a chymunedau lleol i gynllunio ar gyfer y patrymau tywydd cyfnewidiol a ragwelir o achos newid hinsawdd.

DYSGU A MYFYRWYR

70 mlynedd o wirfoddoli gan Fyfyrwyr Bangor

Mae myfyrwyr wedi bod yn gwirfoddoli gydag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor ers 70 mlynedd. Lansiwyd y Prosiect Te Parti yn 1952 a dyma ddechrau'r daith wirfoddoli y mae myfyrwyr Bangor wedi bod yn ei dilyn ers hynny. Mae'r Te Parti yn de prynhawn ac adloniant ar gyfer trigolion oedrannus adeg y Nadolig ac o gwmpas Dydd Gŵyl Dewi. Dros y blynyddoedd, mae'r partïon wedi rhoi cyfle i'r gymuned oedrannus fynd allan a chymdeithasu ac wedi helpu i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd.

Rhai o wirfoddolwyr ymysg myfyrwyr Prifysgol Bangor

Astudio

Mae'r modiwl Iechyd Byd-eang yn ymdrin â phynciau amrywiol sy'n ymwneud ag iechyd byd-eang, gan gynnwys Nodau Datblygu'r Mileniwm, Strategaeth Iechyd Byd-eang, Adroddiad Datblygu Byd-eang, a Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Mae'r modiwl Datblygu Cynaliadwy: o'r Byd-eang i'r Lleol yn edrych ar ddatblygu cynaliadwy'n seiliedig ar ffyrdd effeithiol o ddiogelu'r amgylchedd, defnydd darbodus ar adnoddau naturiol, cynnal cymunedau sefydlog a ffyniannus sy'n cyflawni anghenion pawb. Byddwn yn ystyried datblygiad cysyniad cynaladwyedd i boblogaeth sy'n newid, technoleg adnoddau, a'r ddadl ynglŷn â datblygu.

GWEITHREDIADAU

Gweithgareddau Addysgol Allgymorth Penodedig i'r Gymuned Ehangach

Mae gwella ansawdd bywyd a rhannu gwybodaeth drwy ymgysylltu cymdeithasol a chyhoeddus yn dod mewn sawl ffurf ym Mhrifysgol Bangor.

E-Newyddlen Alumni - Mae'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni yn anfon e-gylchlythyr misol i alumni.

Pontio - Mae Canolfan y Brifysgol yn cynnig cyfuniad cyffrous ac unigryw o'r celfyddydau a diwylliant, arloesedd, addysg a chymuned.

BLAS - prosiect cyfranogol ieuenctid Pontio sy'n cynnig profiadau celfyddydol i blant a phobl ifanc.

Canolfan Ymchwil ac Ymarfer Meddylgarwch - Sefydliad hunan-gyllidol wedi'i leoli o fewn yr Ysgol Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon i hyrwyddo lles trwy ddefnyddio dulliau wedi'u seilio ar ymwybyddiaeth ofalgar. Cyrsiau niferus, digwyddiadau ac mae lawr lwythiadau sain tywys am ddim ar gael.

Hwb Menter - Er mwyn cefnogi busnesau y tu allan i'r sectorau carbon isel, ynni a'r amgylchedd, digidol a gwyddorau bywyd, mae M-SParc a Menter Môn yn bartner ar yr Hwb Menter. Caiff yr Hwb ei ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. Mae'r Hwb yn fodd i M-SParc gefnogi busnesau newydd ym mhob sector drwy ddarparu swyddfeydd a gaiff eu hariannu'n llawn, digwyddiadau, a chefnogaeth i fusnesau.

Chwaraeon Bangor - Mae'r Canolfan Chwarae yn darparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden i staff, myfyrwyr, athletwyr elitaidd, blant, ac i'r cyhoedd.

Gardd Fotaneg Treborth - Mwy na 2,000 rhywogaethau planhigion o fewn 18ha (44 erw), adnodd ar gyfer addysgu, ymchwil, ymgysylltu a'r cyhoedd a mwynhad.

Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor - Cynnig amrywiaeth o gyfleoedd, gan gynnwys gweithgareddau ar ôl ysgol, sesiynau i blant awtistig, mentora un-i-un mewn ysgolion cynradd lleol a diwrnodau allan i blant y mae salwch teuluol yn effeithio arnynt.